



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

WIDENER LIBRARY



HX 15FC /



Ce 1 + 4005.838


Harvard College Library



FROM
THE FUND OF
MRS. HARRIET J. G. DENNY
OF BOSTON

Gift of \$5000 from the children of Mrs. Denny,
at her request, "for the purchase of books for the
public library of the College."







TRAETHAWD

AR

HYNAFIAETH AC AWDURDODAETH

COELBREN Y BEIRDD,

YR HWNN

A ENNILLODD ARIANLWS A GWOBR EISTEDDFOD
Y FENNI, 1838.

GANN TALIESIN WILLIAMS,

[AB IOLO.]

Llanymddyfri :

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWDYD GANN WILLIAM REES,
AR WERTH HEFYD


GANN H. HUGHES, 15, ST. MARTIN'S LE GRAND, D. WILLIAMS, 44, HOLYWELL
STREET, STRAND, LLUNDAIN; E. PARRY, CAERLLEON; WHITE, MER-
THYR TYDFIL; J. H. MORGAN, Y FENNI; A CHANN BRIF
LYFRWERTHWYR Y DYWYSOGAETH.

MDCCCXL.

Celt 4005.838

~~IV, 5565~~

20607
69



Denny fund.

CYFLWYNEDIG

I

WILLIAM WILLIAMS, YSWAIN,

O

Aberpergwm,


GLYNN NEDD,

RHODDWR Y TESTUN A'R WOBR;

ER CYDNABYDDIAETH DIOLCHGAR O'I WLADGARWCH A'I
GYFEILLGARWCH DIGYFNEWID,

GANN

YR AWDUR.



RHAGY MADRODD.

PANN yr adgyfodir, fal o'r bedd, unrhyw wrthddrych ag oedd wedi myned bronn yn llwyr ar anghof, dros oesoedd, disgwylir am fwy o dystiolaethau i sefydlu ei hanfod, a'i dras, na phei buassai ond wedi newydd ddychwelyd, yn ei benllwydni, iddei hen gartref, tra yr oedd un neu ddau o'i gyfoedion fyth ar dir y byw, i alw, trwy ymbwyll, ar gof, dyddiau chwareugar eu cyfieuengetyd: felly anhep-corol yw rhoddi, yn awr, amlygiadau mwy lliosog gerr bronn y wlad, parth Hynafiaeth Coelbren y Beirdd, na phei buassai wedi bod yn wybodus i'n Dysgedigion yn *niweddar*. Yr ystyriaeth hynn a barodd immi lanw y Traethawd canlyniadol a *chymmaint* o dystiolaethau.

Lle mae y gair *Coelbren* yn arferedig gennyf am *Beithynen*, neu lyfr *Gwydd* cyflawn, gwelir ef yn *wrrywaidd*; ond, yn fenywaidd, pann yn lle EGWYDDOR y Coelbren. Penderfynais ar y gwahaniaeth hynn, ar ol rhywfaint o amheuaeth.

Gwelir fod rhai o'r casgladau tystiolaethol drwy'r Traethawd yn aneglur, mewn manau; canlynais, beth bynnag, yr

awdurdodau gerr fy mronn. Os bernir fy mod yn amddiffyn hen IOLO MORGANWG yn lled danbaid, cofier ei fod ef, *yn awr*, yn analluog i ateb drosto'i hunan, yn y fuchedd honn.

Herwydd *meithder* yr ymchwil am dystiolaethau digonol, ynghyd a rhai fisoedd o waniechyd, ni ddechreuais ysgrifennu y Traethawd ymma i maes, nes ychydig wythnosau yn ol; digwydd na welir, gann hynny, argoelion brys ynddo.

GWYDDON.

Awst 31, 1838.



TR A E T H A W D.

FAL pob peth pwysfawr arall, o darddiad *tra hen*, mae dechreuad *gwirioneddol* Llythyrennau Gwybodaeth, fe allai, yn anghyrraeddwy i dreiddiadau yr ymgeniaeth ddynol, gann yr oesoedd meithion a lithrassant heibio, a'r cyfnewidiadau, y symmudiadau ym mhlith preswylwyr y ddaear, a'r difrodau trymmion ar Lênyddiaeth trwy bedryfan byd, a gymmerassant le oddiar pann y dychymmygwyd gyntaf y fath elfennau ardderchog, trwy gyfryngau pa rhai y mynegwyd, yn gadarnaf, addasrwydd dyn i'r rhagorfraint a briodolir iddo gann dystiolaeth Ddwyl, sef, bod yn ffurfiedig "ar lun a delw Duw."

Pei dichonadwy fyddai treiddio, yn ddigon goleudrem, trwy y caddug dudew ym mha un y mae digwyddiadau cynoesoedd bodoldeb is haul yn orchguddiedig, ymddangossai, ond odid, nad ydyw y ddyfais ogoneddus honno yn *hollol* gyfyngedig i unrhyw wlad neu genedl *neillduol*; ond, yn hytrach, fod gann amryw ddynion, o wahanol bobloedd ac amseroedd, hawl, mwy neu lai, (rhai, fe allai, yn gydraddol,) iddi; herwydd y gallasant dderchafu eu hymegnioedd i'r unrhyw dychymmyg, heb i'r naill na'r lleill wybod fod neb arall wedi cyrraedd ucheldyb disgleirnavs o'r cyffelyb.

Mae traddodiadau y Cymry, fal rhai pob gwlad ddysgedig arall, parth y cyfryw feddyldraidd, mor amgylchynedig gann niwl hen amser, fal nas gellir, gydag un sicrwydd, eu hymddiosg o'u hofergoeidd cyssylltiadol.

Y mae y gweddillion o gynwybodaeth yr hen Gymry, a gair etto (er bronn yn ddiarwybod i'n cenedl, herwydd eu hesgeulusdod truenus) yn arosedig yn ein plith, sef, hen Drioedd Cerdd, Trioedd Barddas, Trioedd Braint a Defod, hen Ddwnedau neu Ramadegau, &c. &c. yn priodoli *adnabyddiaeth ar Lythyrennau* i fynegiadau gwyrthiol, fal pei tybient y fath Gelfyddyd FRENIOIOL yn oruwch-ddynol, heb ryw gynnorthwy datguddiadol.

Cesglir, oddiwrth y tynniadau canlyniadol, synniadau ein cyndeidiau ar y penn hwnn; ac ymma, iawn immi hyspyssu y rhoddaf, yn awr, fal ar *bob tro arall*, yn y Traethawd hwn, sylwadau awduron, hen neu ddiweddar, eraill, *gair a llythyren*, yn llwyr gyttunol â'r ysgrifau a'r cyhoeddiadau dann fy ngolwg.

Llymma rai o'r tynniadau crybwylledig:—

“Einigan Gawr a weles dair colofn goleuni ag arnynt holl wybodau a fuant erioed ag a fyddant fyth yn ddangosedig ynddynt, ag efe a gymmeres dair gwydden gerdin ag a ddodes arnynt luniau ag arwyddion bob gwybodau yn goffadwy, ag ai dangoses hwynt, a'r rhai au gwelasant a ddodasant gamddeall a geubwyll arnynt, ag a ddysgasant dwyll wybodau a Dodi Duw ar y Gwiall lle nid oedd namyn ei enw arnynt, ag Einigan yn gweled hynny mawr y bu chwithrwydd iddo, a chan amgerth ei alar torri'r tair gwydden ag ni chaffad eraill yn gyfiawn eu gwybodau, a chwithed hynny gantho oni holltes gan yr amgerth, ag a'i anadl gweddio Duw er cael cyfiawn wybodau ymhlith Dynion ynghnawd, a chyfiawn ddeall er iawn ymbwyll ag wynt. ag ymhenn undydd a blwyddyn gwedi marw Einigan y Gweles Menw ap y Teirgwaedd dair Gwialen yn tyfu o enau Einigan ag arnynt yn gyflwyn gwybodau Deg llythyren ar modd y trefnawr ynddynt; bob gwybodau Iaith ag ymadrawdd ag ar Iaith ag ymadrawdd bob gwybodau darnodedig arnynt. yna cymeryd y gwiall a dysgu'r gwybodau oddiarnynt, y cwbl ond enw Duw, ag ar hynny dodi cyfrinach rhag dodi geubwyll ar yr ENW, ag o hynny cyfrinach Barddas Beirdd Ynys Prydain, a Duw a ddodes ei nawdd ar hynn o gyfrinach ag a roes i Fenw ddeall traphwyll yn hynn o'i nawdd ar wybodau, ar deall hynny a elwir Awen o Dduw, a gwynn ei fyd fyth ai caffo. Amen poed felly bydded.”

Wrth ddarllain yr uchod, gelwir i gof yr hanes Ysgrythyrol am rhoddiad y Deg Gorchymmyn i Moses. Enwir, hefyd, ym mhlith y cyfryw, "Main Gwyddon Ganhebon, lle (yn ol Trioedd Ynys Prydain, rhif 97,) y darllenid arnynt holl gelfyddydau a gwybodau byd."

Gellir feddwl, nid yn oed oddiwrth chwedl Einigan Gawr, ond, hefyd, oddiwrth adroddiadau eglur amryw o'r Trioedd, fod y Cymry, yn nechreuad eu gwybodaeth, wedi ymarferyd arwydd-luniau (*hieroglyphics*) yn eu coffadwriaethau.

Dernyn o hen Ddwned, dann yr enw "Cyfymbwyll Maccwy a'i Athraw:"—

"Adolwyn pa fodd y cafwyd deall gyntaf ar lythyr parth Llun a llafar?"

"Ys ef hynny Duw pan nad oedd mewn na byw na bod namyn ef ei hun, a ddatgenes ei enw ag yn gytrym a'r gair yn floedd gorfoledd pob byw a bod yn gwbledig a melusaf a glywid erioed ar gerdd y llafar hynny, ag yn gytrym ar llafar goleuni, ag yn y goleuni Llun ar enw yn dri llais drillafar, yn gydlef gyfennyd, ag yn y gweled dri llun, a lliw a llun goleuni ydoedd, ag yn un ar llafar a lliw a llun y llafar hwnnw oeddynt y tair llythyren gyntaf, ag o gysswllt eu tri llafar y lluniwyd pob llafarau eraill ar lythyr, sef a glywes y llafar Menw hen ab y Tairgwaedd, ag a wnaeth lun llafar Enw Duw gyntaf, ag eraill a wedant taw Einigan Gawr a wnaeth Lythyr gyntaf, a llun enw Duw oedd hynny pan y cafas ef ei hynan yn fyw ag yn bod yn gytrym gyfergyd ar llafar."

Cyfaddefir fod yr hanes uchod yn amlygu dychymmyg ysplennydd; dychymmyg cymmaint uwchlaw un peth ag a briodolir i'r Rhufeiniaid a'r Groegiaid ag yw yr haul yn rhagorach na gwreichionen.

Cynn ymestyn ym mlaen at wrthddrych neillduol y Traethawd, sef Awdurdodaeth ac Heneiddrwydd y Llythyrennau a roddir dann yr enw "Coelbren y Beirdd," (yn lle *Egwyddor Coelbren y Beirdd*), eynnygaf rhai ymniadau ar yr amheuaeth cynnyddiadol yn ein plith i'r *Egwyddor* honno, a'i hystyried fal yr *hen* un arferedig gann ein cyneidiau; ac yn enwedig i'r gwrthwynebiadau a glywir mor gyffredin i'r gred golededig gann rhai o'n dysgedigion diweddar, sef, mai honno oedd yr hen *Egwyddor* a arferwyd gynt gann y Cymry ar *wydd*, yn eu dull o gadw argofiant torredig a darlleniadol, ar y fath ddefnyddiau, o'u dysgeidiaeth.

Ond wrth gymmeryd y gorchwyl hwnn mewn llaw, teimlaf yn fawr ddwysder yr ymgais i sefydlu heneiddrwydd y Coelbren; nid am y canfyddaf unrhyw anhawsder ar ffordd y prawf, canys y mae'r llwybr yn hollol ddirhwyrstr o fy mlaen, ond am y gwelaf yn ddigon eglur fod Gwyr Llên y Dywysogaeth i gyd, oddieithr *un* neu *ddau*,—

“Braidd *dau*, lle bu gynnau gant,”

ie, canmil, yn haeru, âg unfryd, na fu y fath arferiad coffadwriaethol *erioed* yn ein gwlad; ac, ym mhellach, mai dechreuad sôn am y Coelbren oedd ffug-ddyfais Iolo Morganwg yn unig.

Rhaid immi gyfaddef, i'r tyb cyffredin hwnn gael rhywfaint o wynebolrwydd, pann y daeth yn wybodus i'r wlad na dderbynwyd dim ar y Testun dadleuol hwnn, oddieithr dau neu dri chynnyg, eithaf efrydd, i Eisteddfod ardderchog Caerdydd, er i honno gael ei chynnal yn yr ardal neillduol ym mha un, yn ol tystiolaeth hen Iolo ei hunan, ac, yn gyttunol âg ef, y Dr. Owain Pughe, y bu yr *Egwyddor* dann sylw yn arferedig ar Goelbren yn ddiweddaraf; ac er, hefyd, i wobr annogaethol gael ei chynnyg, er mwyn bywiogi cystadleuaeth ar y pryd:—ond, beth am hynny? Ni ellir, yn un modd, mwylhau y cyfryw gysgodau arwynebol, a darddassant o ddigwyddiadau, neu, fe allai, amgylchiadau *neillduol*, i unrhyw amheuaeth sylweddol; er fod y dysgedig Ioan Tegid wedi cyfrif hynny yn sail ddigonol i ymwrthod ar unwaith â'r Coelbren a'i Egwyddor.

Gwir yw, ein bod yn ddyledus i ymegniaeth cadarnfryd a diffin Iolo Morganwg, am achub o gudd rhai o ganrifau amser, Hanes y Coelbren a'i berthynassau; ac mai ei lygad cywirdrem ef a sylwodd gyntaf, ys oesoedd, ar gyfeiriadau tryfrith y Beirdd, ac hen awduron eraill, o'i blegyd; er y gallassent eraill, tebygwn, eu *gweled hefyd* yn ddigon hawdd. Ond ym mhellach na hynn, ni theilyngodd ef, ar y penn hwnn, na pharch nac anair. Yr oedd ef yn gwybod yn dda fod cred y wlad yn tadogu y son cyntaf am y cyfryw beth ar ei ddychymmyg ef yn unig; ond, er fod dysgedigion yn foddlon iawn i edrych ar ei *ffugiad* (yn ol eu haerriad nhwy) fal peth llwyr ddi-niwed, ac yn awyddus i briodoli clod iddo am ddyfais gywrain yn addasiad llythyrennau yr Egwyddor honn i ansodd-drefn *gwydd*, neu brenn; etto, nid oedd y fath ganmoliaeth pludd yn delëu, yn y mesur lleiaf, ei wrthneue anorchfygol i'r cyfryw gamgyhuddiad, nac ychwaith yn brawychu, dros darawiad ammrant, ei fryd diwrthgil yn ei ymlyniad wrth y Gwir.

Y mae rhai, gwir yw, wedi sylwi fod y gair GWYDD yn ymddangos yn lled fynych yng nghyfansoddiadau y Beirdd; ac, o ganlyniad, yn eu hawydd i wneuthur, yn ol yr hen ddiareb, "naill ai cadno neu lwyn o rhedyn" o hynny, maent wedi breuddwydio am bob ystyr i'r cyfryw air, ond yr *us iawn*. Yn ol esponiadau camsynniadol amryw awduron, dywedir ei fod yn arwyddocau *Tynged*, *Swyngyfaredd*, *Serddewiniaeth*, *Hudolaeth*, &c.; ac yn gydlais â hynn, dymma y Saeson yn penyrru ym mlaen, gann ymddadwrdd am *Destiny*, *Lots*, *Enchantment*, *Divination*, &c.; ond nid rhyfedd eu hanwybodaeth *nhwy* am hen ddefodau y Cymmry, eithr am ein *dysgedigion* (ac wyf yn arfer y gair gyda pharch diragrith) yn y dywysogaeth, i ba rhai y mae yn llwyr adnabyddus y cyfan a sydd yn ddywededig am Goelbren y Beirdd, gann ei amddiffyniaid, y mae yn syndod mawr i myfi na ddarfu iddynt, ar rhyw awr ddedwydd neu'r gilydd, geisio cyssoni geiriau o'r fath â'r defnydd a wnaethpwyd o'r Coelbren a'i berthynassau. Pei gwnaethent hynny, cawsent bob ymadrodd o'r cyffelyb ar unwaith yn ddigon dealladwy; ond nid *heb* hynny.

Yn wir, fe weddai yn fawr i'r Cymmry amddiffyn eu hawl gyfion i enwogrwydd uchel, drwy'r hen oesoedd, am wybodaethau derchafedig, pann yr oedd gwledydd eraill yn ymddifad o ddysgediaeth. Dylent, gydag ymegniaeth *prydawn* ac awyddus, chwilio i maes gweddillion eu llenyddiaeth, a'u derchu i'r amlwg anwadadwy, gann fod y Saeson, ac estroniaid eraill, yn eithaf parod, yn eu heiddugedd, i garn-sarnu, i'r cudd annhreiddiadwy, y gweddillion arosedig o'n cynddysg, heb iddynt hwy (y Cymmry), fal hunain-ddirmygiaid, weiddi "hawddammor i'r gorchwyl!"

Daeth Iolo Morganwg ym mlaen, yn ei wladgarwch, i amlygu i'r Cymmry Coelbren y Beirdd, a'i hen Egwyddor; ond pann y clywsant yr ymadroddion tarfiadol,—*pillwydd*, *ebillion*, *peithynen*, *saer cerdd*, *naddu cerdd*, *torri gwawd*, *bwyall*, &c., meddylasant, yn ddychrynfawr, am ddihenydd Brenin Ffraingc; a ffoassant, a'u dwylo am eu pennau, oddiwrth yr hen fardd a'i ermyg goelbrennog ofnadwy!

Yn awr, gann fod Gwron yr hen ddefod yn llwch yn ei fedd, a rhadferthwch wedi ail seirioli gwedd ein hathrawon, gobeithiaf y gwrandewir, yn ymbwyllgar, o leiaf, os nid yn argyhoeddiadol, ar y tystiolaethau, y crybwylliadau, a'r synniadau a gynnygaf o rhann yr *hen* Goelbren.

Ond, ym mlaenaf, crybwyllaf am rhai o'r amheuan a ddygir yn erbyn yr Egwyddor honn, gann gynnyg synniadau attebol iddynt.

I. Ni chlywyd son am y fath Egwyddor, nes i Iolo Morganwg ei gossod o flaen y Cymmry.

Synniad.—Yr oedd yr arferiad wedi myned mor llwyr i lawr, ys oesoedd cynn hynny, fal nad oedd cof gwlad am dano; ac yr oedd cymmaint ddfrod wedi gorddiwes hen lyfrau ysgrifenedig y Cymmry, fal na ddiangodd ond gweddil fechan o honynt; a'r gyfran honno fal dann gudd, mewn mannau a chasgliadau anhyspys i'r wlad.

II. Ni wyddys yn iawn ym mha le y cafodd Iolo Morganwg haes awdurdodol am Goelbren y Beirdd. Dymunir, gann hynny, wybod ym mha fannau y gellir ei gweled.

Syn.—Cafodd Iolo Morganwg hanes Coelbren y Beirdd ym mhlith hen ysgrifau Beirdd Cadair Tir Iarll; a'r rhai hynny wedi eu tynnu i maes o *hen* lyfrau Plâs y Fann, Monachlogydd Castell Nedd, Margam, &c. a rhai Castell Rhaglan, gann Lewys Morganwg, Meyrig Dafydd, ac eraill; ac wedi eu hadysgrifennu gann Llywelyn Sion o Langewydd, Edward Dafydd o Fargam, a John Bradford, (Ieuan Tir Iarll,) ac eraill.

III. Ym mha le y gwelir y cynysgrifau, y tynniadau, a'r adysgrifau hynny?

Atteb.—Llosgwyd Llyfrgell a'dderchog Rhaglan yn y gwrthryfel a fu rhwng Siarls I. a Chromwel; aeth ysgrifau Lewys Morganwg, er a wyddys, ar goll, a gwasgarwyd ysgrifau Llywelyn Sion, a Sion Bradford, dros y wlad, a chollwyd llawer o honynt.

IV. O lyfrau pa rhai, ynte, y tynnodd Iolo Morganwg yr hanes honn, ac ym mha le y mae y cyfryw lyfrau?

Atteb.—O lyfrau Llywelyn Sion, a Ieuan Tir Iarll; ond, fal y rhagddywedais, mae llawer o honynt yn llwyr golledig. Mae rhai o ysgrifyfrau Llywelyn Sion ym meddiant Taliesin ab Iolo; un llyfr mawr yn Llanharan; un arall gann y Meddyg Johnson o'r Bontfaen; ac eraill mewn amryw fannau gwahanol. Benthycodd Ieuan Tir Iarll llawer o'i lyfrau, ychydig flynyddau cynn ei farw, i Owain Myfyr, pa rhai ni ddychwelwyd. Mae un o honynt (prydyddiaeth) gann Ab Iolo ar fenthyg; yr oedd un arall, yn niweddar, gann Mr. J. Williams, Argraphydd, Abertawe; ac yr wy'n clywed fod eraill yn y Gogledd.

V. Gellir gweled llyfrau Llywelyn Sion, a Ieuan Tir Iarll, a gynnwysant hanes Coelbren y Beirdd?

Atteb.—Ofnir nad ellir. Dichon nad ydynt yn llwyr golledig; eithr eu bod mewn mannau ag ydynt yn awr yn anwybodus inni.

Syn.—Yr oedd dau ysgrif (fal yr ymddengys, oddiwrth nodau cwrr dalen Iolo Morganwg,) o Gyfrinach y Beirdd iddeu gweled, nes yn lled ddiweddar; un gann Ieuan Tir Iarll, a'r llall yn Llanharan; ond y maent wedi diflannu. Yr oedd y ddau yn llaw Llywelyn Sion.

Os gwrthwynebir heneiddrwydd cynnwysiadau yr ysgriflyfrau Cymmraeg ag sydd yn arosedig yn ein plith, am nad ydynt y cyfryw *ysgrifau* yn *hen* hefyd, rhaid inni, nid yn unig fal cenedl, ymwrthod â'n hawl i unrhyw addysg *hen* iawn, ond dal yn ychwaneg dann wrthneu *hynafiaeth* gwybodaethau cenedloedd eraill; canys nid yw y cyfryw yn ddisgynnedig inni, ond trwy aneirif adysgrifau, o oes i oes, wedi i'r *cymysgrifau* fyned yn llwyr ar goll. Dann yr amheuaeth hynn, beth a ddelai o hawl y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd i'r cyfansoddiadau a gair dann eu henwau, heb son am lawer o bethau eraill; canys pell iawn ar ol amseroedd yr awdwyr hynny yw'r ysgrifau *henaf* o'u gwaith.

VI. Pwy a welodd dynniadau Iolo Morganwg o ysgriflyfrau Llywelyn Sion, a Ieuan Tir Iarll?

Atteb.—Y maent iddeu gweled; ac ni rhoddir ymma, yn un mann, rhanniadau o'r cyfryw, nad ellir eu gwirioneddu trwy gydmariaeth. Canniatteir, *hyderaf*, i'r Beirniad dyagedig edrych drostynt, a'u dangos i ddysgedigion eraill, pei dymunai.

VII. Pam na chadwyd hanes Coelbren y Beirdd yn unrhyw ardal arall, namyn Cadair Tir Iarll?

Atteb.—Yr oedd Essyllwg, yn ol cyfaddefiad y Rhufeiniaid, yn fwy ymarweddol nag un ardal arall o'r Ynys, yn y cynoesoedd; ac eglur yw, iddi gynnal ym mlaen ei rhagorfreiniau, o oes i oes. Llafar-ddull Essyllwg a ganfyddir yn y Mabinogion, yr *holl* Drioedd, Cyfreithiau Hywel, (a ysgrifenwyd gann Blegywryd, pen-cyfeistedd Llandaf,) Brut y Tywysogion, (Caradoc Llanccarfan,) ac, yn wir, yn agos y cyfan o'n hen Ddysgeidiaeth Rhyddieithol;—(gweler Myf.

Arch. Cyf. III.) a phei gellid *iawn* ddarllain y Cynfeirdd, cyfaddefit yr un peth parth eu cyfansoddiadau nhwy. Ac fy marn ddiysgog i yw—y dëellid, hefyd, mai Deheudir Cymmru yw sefyllfa llawer mwy o'r llefydd a enwir ganddynt, nag a feddylir yng nghyffredin.

Syn.—Cymmysgwyd Derwyddiaeth yn gynnar, yn y Gogledd, â daliadau neillduol y Gwyddelod, pa genedl oeddynt, yn ddiarbed, a'u hymgyrch ar y wlad honno. Ond nid felly yn Essyllwg, gann y cesglir yn dra eglur, iddei thrigolion, nid yn unig ar ol cyfnod cyntaf eu cred, ymgysylltu â'u Cristnogaeth mwy o ddaliadau Derwyddol na'r Cymmry amgen, ond iddynt hefyd gynnal yn helaethach ac yn burach hen freiniau a defodau Barddas, a gwybodau eraill. Profir hynn, hyderaf, gann y tystiolaethau a rhoddir ym mlaen-rhediadol.

Yn awr, yr wyf yn rhydd i gyfaddef nad ellir derbyn yr atebion a'r synniadau uchod yn ddigonol i *sicrhau* Awdurdodaeth ac Hen-eiddrwydd Coelbren y Beirdd, heb dystiolaethau *lliosog* o gyfansoddiadau dysgedigion Cymmru, yn olynol, ai Prydyddiaeth ai Rhyddiaith, o amser ein Cynfeirdd hyd yn awr; ond ar ol dangos y cyfryw dystiolaethau, bernir, hyderaf, eu bod yn gefnogaethol iddynt. Yr ystyriaeth ymma a essayd ger ein bronn amheuaeth arall, a'r *gadarnaf* ym mhell o'r cyfan; sef,

VIII. Pa gyfeiriadau awdurdodol a welodd Iolo Morganwg, yng nghyfansoddiadau yr hen Feirdd, ac eraill, at y cyfryw arferiad, i arwain ei feddwl i gredu yn ei wirionedd?

Atteb.—Gann mor dryfrith ydynt, nid oes gennyf ond annog y Cymmry i agor ein hen awduron, yn enwedig y Beirdd, ac yna, yn ol beddlith Syr Christopher Wren, "Edrychent o amgylch." Dymma honniad *hy*, onittê? ac y mae yn llawn bryd immi fyned ym mlaen i gyfiawnhau fy nghred.

LLYWELYN SION, O LANGEWYDD, A'I
GYFARWYDDYD.

Gann mai darluniadau a chyfarwyddyd Llywelyn Sion ydynt y rhai cynnwysedig yn yr unig Draethawd *hyfforddiadol* ar Goelbren y Beirdd, ag sydd hefyd, *gyda hynny*, yn rhoddi yr Egwyddor, sylwaf rhywfaint ar awdurdodaeth yr Ysgrifennydd clodfawr hwnnw:—

Yr oedd Llywelyn Sion yn un o ddysgyblion Tomas Llywelyn o Rhegoes, a Meyrig Dafydd o Lanisan, ac yn fardd bywiogddawn, ucheldyb, fal y dëllir oddiwrth ei gyfansoddiadau lliosog a gawn yn arosedig mewn amryw hen gasgladau. Yr oedd ef, hefyd, yn Hynafiaethydd ymdreiddgar a llwyddiannus; ac ymbwysaf ar amryw bethau mewn hen ysgrifau am wirionedd yr honniad hynn.

Yr oedd ef yn ennill ei fywioliaeth, mewn messur, wrth ei wybodaeth, gann ei fod yn adysgrifennu yr hen ysgrifau Cymmraeg, ac yn gwerthu ei adysgrifau i foneddigion y wlad;—a da iawn oedd iddo wneuthur hynny, gann iddo achub, felly, o drafwngc coll, o ddinystyrsgubell difrod ac anrhaith, ac o ddiddymmiad y tân yssawl, llawer o gynnwysiaidau yr hen gasgladau ag oeddynt yn agos ym mhob hen lyfrgell yn ei amser. Gwae ni, am nad ydynt yn awr!

Yr oedd ef wedi crynhoi iddei feddiant llawer o lyfrau Llawdden, Iorwerth Fynglwyd, Lewys Morganwg, Meyrig Dafydd, ac eraill o Feirdd Cadair Tir Iarll; ac yr oedd ef, yn ychwaneg, wedi gwneuthur tynniadau helaethion o lyfrgelloedd Rhaglan, y Fann, ac eraill, fal y cesglir oddiwrth Gyfrinach y Beirdd. Oddiwrth y Cywyddau a fu rhyngtho â'r Bardd Sion Mowddwy, dëllir ei fod ef yn un o îs-swyddogion Cyfreithlys Morganwg, sef *Gostegydd*, (*Crier*,) ac, herwydd ei swydd, yng nghyd â'i gydnabyddiaeth â mawrion y wlad, yr oedd ef yn dderbyniadol iddeu tai, ac, yn ganlyniadol, yn rhydd i foddhau ei awydd lenyddol i raddau helaeth. Yr oedd ef yn adnabyddus i Syr Edward Mansell, o Fargam, pa ùn, tuag 1575, a ysgrifenoedd Hanes ganmoladwy o oresgynniad Morganwg gann y Normeiniaid. Mae Syr Edward yn crybwyll am dano, wrth yr enw "Llewelyn John," fal ysgrifennydd ymdrechgar a pharchus. Ymddengys fod Syr Edward ei hunan yn gasgledydd dysgedig a diwyd o hen ysgrifau Cymraeg. Oddiwrth englynion o'i eiddo, gwelir i Llywelyn Sion rhoddi ei lyfrau, pann yn hen iawn, iddei ddysgybl ieuangc, Edward Dafydd o Fargam. Y mae ef, ar ddiwedd ei gasgliad llafurus, yn Llyfr Hir Llanharan, yn dywedyd fal hynn,—“Fy llaw i, Llywelyn Sion, o Langewydd, hyd ymma, Tach. y 27, 1613;”

ac mae llaw Edward Dafydd yn canlyn. Efe a fu farw, medd un awdurdod, yn 1615, medd un arall, ac fe allai yn iawn, yn 1617, tua chant oed.

Herwydd y gorfod oedd ar Gadair Tir Iarll i gadw argofiant am hen Freiniau, Defodau, a Gwybodau yng nghyffredin, eithr Barddas yn neillduol, yr oedd Beirdd y Gadair honno, ar bob cyfnod Gorsedd, yn rhwymedig i ddangos Coelbren, ym mhlith pethau perthynol i hen arferiadau eraill; a thrwy hynny, gallessid gweled Coelbren, medd Llywelyn Sion, ym meddiant rhyw rhai o Feirdd a Boneddigion Morganwg; ond y mae ef yn tystiolaethu fod yr arfer ganmoladwy o gadw y fath lyfr ar fethiant yn ei amser, ac yn cerbyddu yn llym, y Beirdd, am eu hesgeulusdod. Y mae ef, ym mhellach, yn dywedyd fod Coelbren y Beirdd yn *arferedig* trwy'r dalaith tua chan mlynedd cynn ei amser.

Y mae yn syndod gann rhai nad oes gennym hanes gann neb am Goelbren y Beirdd, ag sydd yn henach nag amser y Frenhines Elizabeth; ac y maent yn cyfrif hynny yn amheuseth pwysfawr iddei heneiddrwydd. Ond gofynnaf, Pa mor *aml* y rhoddwyd cyfarwyddyd arbennig, cynn yr oes honno, i wneuthur *inc, papur, ysgrifell, (pen) &c.*? Nid oedd cyfarwyddiadau i wneuthur pethau cyffredin yn cael eu rhoddi yn *aml*, nes rhai oesoedd wedi hynny. Pei buassai y Saesneg fal y Gymmraeg, yn iaith megys ar lwybr difiant, o'r pryd hynny hyd yn awr, ni fyddai ond ychydig iawn o gyfarwyddiadau celfyddydol y iaith honno ar lyfr-gof gennym yn yr oes wyddfodol.

Heblaw y rhwymedigaeth ag oedd ar y Beirdd i gynnal ar gof a chadw hen Ddefodau y Cymmry, mae Llywelyn Sion yn dywedyd i'r Beirdd orfod dychwelyd at y Coelbren, fal yr unig ddull dichonadwy iddynt, dann galedi, o gofnodi eu dysgeidiaeth. Y mae ef yn cyfeirio at ormes y Saeson yn amseroedd trallodau y Tywysogion, ond yn neillduol at gaethiwed y Beirdd, yn amser (yn ol ei eiriau ef) "Rhyfel Bargod Owain Glynn Dwr," gan ddywedyd i lywodraeth Lloegr wahardd Dysg ym mhlith y Cymmry, a chadw oddiworthynt *bapur* a defnyddiau coffadwriaethol eraill. Yn wir y mae holl Feirdd yr oes honno, ac yn hir wedi hynny, yn son, yn ddiarbed, am y Coelbren, yn agos fal unig gyfrwng gwybodaeth. Mae hanesyddion Saesneg hefyd yn cyfaddef llawer o gyfyngderau ar y pryd hynny.

Ysgwaetheroedd! mae gormod o le i gredu i'r holl alanastra a difrod a ennwyd erioed, a llawer mwy, gyfarfod, o oes i oes, â'r Cymmry a'u dysgeidiaeth; ond mae'r cyfan wedi myned heibio, a'r Creawdr wedi barnu rhwng y gormesydd a'r gormesiedig. Bydded cyfundeb mwyach!

LLYMMA HANES GYFARWYDDIADOL


COELBREN Y BEIRDD,

YNGHYD A DULL EI EGWYDDOR,

Tynnedig o lawysgrif Iolo Morganwg, a honno yn *hollol* yn ol un Llywelyn Sion, fal yr ymddengys:—

“COELBREN Y BEIRDD, HERWYDD LLYFR
LLYWELYN SION.”

“Yr hen Gymry, au prydyddion, au doethion o wyr wrth lyfr a nattaynt dorri llythyriaeth ar goed, achaws nid oedd yn eu hamser nhwy or dechreu wybodaeth nag am bapyr nag am blagawd, a llyma ddangos y modd y gwnaent eu llyfrau, ac wyneblun dull a modd,—




“Cyntaf o beth a wneir yw'r pillwydd sef y Cyffon Cyrfin, pob cyff yn ddau hanner fal hyn*”



sef rhif o dyllau yn y cyff, a hannerau'r tyllau yn y naill hanner, ag yn y llall yr hannerau eraill, sef pan y dodder y ddau hanner ynghyd y bydd rhill o dyllau cyfain yn rhestr o'r naill ben i'r llall ynghanol

* Dealled y Darlennydd treiddgar fod yr holl Ddarluniadau rhoddedig ymma o Goelbren y Beirdd, a'i adrannau, yn fwy o faintioli, ac yn llai garw, parth agwedd, na'r rhai tynnedig gann Iolo Morganwg oddiwirth awdurdodaeth Llywelyn Sion. Yn ei lyfr ef y mae y ddau uchod fal hynn:—



y cyff neu'r Pill, a chyff arall or un rhyw a maint a fydd. gwedi hynny gwydd eraill a elwir ebillwydd* ac ebillwydd, a phob un fal hynn,



mynegler y naill ben ar llall fal ai llawlunier yma, a gosod pill casedig a chlymedig am fynyglau rhif a fynner o ebillwydd am y naill pen ag am y llall, ag fal hynny eu cyrfinaw ynghyd pillwyd ag ebillion ar ddull clwyd, ar ebillion bob un yn troi cylch amgylch gerfydd eu mynyglau yn y pillwydd sef y cyffon. Ar yr ebillion y torrir y llythrau a chyllell gyfallwy ar bob ochor or pedwar i bob ebill, a gwedi darllen un ochr, troi ail ochr i fynydd, gwedi hynny y trydydd ochr, ag ar ol hynny pedwerydd ochr, a darllen pob ochr fal ai trother i fynydd.

“rhaid yw rhathu y cornelau ar hyd pob un o'r ebillion hyd y mynyglau, fal nad elo doriad llythyr ar un wyneb yn un neu yn gyttwrch a llythrau'r wyneb arall, ag fal hynny pob wyneb o'r pedwar.

“Modd arall y sydd ar gyrfinaw Coelbren y Beirdd, nid amgen, gwneuthur y pillwydd sef y cyffon yn gyfain yn lle eu bod yn hannerau, a rhestr o dyllau ar hyd y canol, au tyllu ag ebill dân, a gwneuthur yr ebillion yn golynog un pen ag arall, au gosod gerfydd eu colynau yn y pillwydd, a deupen pob un or pillwydd hefyd yn golynawg, ar colynau'n myned i dyllau trawsbillwydd tros lathaut a wneur ar hynn o ddull



pob twll yn myned am golyn cyff yn dynn. ag fal hynny cyfrwymaw'n gadarn y cwbl yn gyrfin ar ddull clwyd, a chofio hawsder tro ag atro i bob un o'r ebillion pennau'r ebillion a fyddant hyd cymmal Bawd drwy'r cyffon y naill pen yn garn troi ar llall yn le torri nod rhif yr ebill; colynau'r cyffon hefyd a fyddant yr un hyd drwy dyllau'r trawsbillwydd cyfrwym ag ychydig fynyglaeth iddynt, a rhwymaw pob mwnwgl ag edau neu lilyn cwyr raid fal nas gollyngont golynau'r pillwydd or tyllau, a rhwymo'r mwnwgl onis bo rhef

* Dygwydd nad *Ebill* neu Ebillion a ddylai'r cyntaf fod ond yr wyf yn canlyn yr ysgrif. † Y ddau yn yr ysgrif.

na'r colyn yn y rhwyllau, a phob colyn cyff yn dra thyn yn ei rhwyll, fal nad elo yngollwng nag ar ysgwyd. y pillwydd cyfrwym a elwir trosrathau, ar pillwydd hefyd a elwir yn gyffon hydrlath neu hydrladd, au colynau yn myned yn y cyffon trosradd. mynyglwr lle'r llinyn ar bob colyn or pillwydd hydrladd. a rhwymo'n yn erbyn y trosrathau, fal nad elont yngollwng. nag yn waglog. a chadarn a diwagl fydd y ffordd honn ag yn hynn gwell na'r un a wneler a chyffon dau hanner, eithr nid cyhawsed dattod ag attod yr un cyfanbill ar un dauhanerbill.

"Modd cyfrwym arall y sydd ar y cyffon hydrladd a throsladd, nid amgen na thorri llwnc naill hanner ar bob pen yr hydrlath ar cyfrwym llwnc ar bob pen trosrath fal hynn



a'r llwngc ymhob un hyd hanner y prenn, a dodir cyffon trosradd llwnc yn llwnc a'r rhai hydrladd yn dynnon, ac ar draws y cyffwnc rhwymyn dynn a llinyn cwyradd, neu a thant telyn neu grwth, a theg a chadarn y ffordd honn.

"Eraill a wnant ebillion, ac a wnant dwll main ag ebill dan* yn neupen pob un o'r ebillion au dodir gerfydd y tyllau hynnu ar llinyn neu ar dant cryf, a rhai a farnant y ffordd honn yn oreu or cwbl, sef y gellir rholo'r ebillion yn ffagell a chlymu a'r llinyn cyfrill, a hawsaf er dwyn gydag un y ffordd honn ant† nad rhaid dattod arni er ffagellu. rhaid cwlm cadarn ar bob pen y Tant fal nad elo drwy dyllau'r ebillion. a dylit hyd ddigon yn y llinyn fal y symmutter ac y trother yr ebillion yn hawdd iddeu darllen, a mal y bo digon o hyd yn y llinyn i glymmu'r beithynen yn un ffagell gron lle bo raid ac achos. eisioes afrwyddaf ei darllen y ffordd honn, a rhwyddaf dattod ag attod or holl fyrdd ydyw.

"Rhwyddach dattod ac attod a gyfriller a phillwydd dauhannerog na'r un a gyfriller a phillwydd cyfain. eisioes anghadarn a gwaglog ydyw.

"Afrwyddach dattod ag attod a fo cyfrill ynghyffon cyfain, eithr cadarnaf yw, etto trymmaf er dwyn gydag un, eisioes goreu lle ydd ysgrifener ac inc ar ebillion llydain.

"Arfer gan rai ebillwydd llydain teneuon llathraid, a llythyru ag inc a cholynau pedroglaidd i'r ebillwydd, a thyllau llinyn drwyddynt, mal y rhettont yr ebillwydd ar y llinyn ynghyd neu ar led fal y bo achos.

* Dan, ymma, yn lle Ddn, fe allai.

† An, yn yr ysgrif.

“Arfer a modd arall ar ebillwydd llydain eu gwneuth* yn wyneb-grwn fal hyn yn y trythor traws



a thynni r ymyslu yn deneuon heb adael o drwch min amcan trwch noblyn, neu ychydig bach mwy. Mae hynn yn ysgafnhau, eithr mwy angnghyno'r* tynniad ynghyd. am nas gorweddant yr ebillwydd yn gedyrn y naill ar y llall.

“Arfer ambell un ebillwydd deuled sef eu moddi fal y gellir deuled neu ddeulinell llythyrau torr ar bob wyneb o'r traws drythor fal hynn



ac ar hyd ganol pob wyneb rhigol deuled torr llythyr, neu fal hynn



ffordd orchestol gynnlgamp homn trafaelus ei gwneuthur a gwell iddei darllain na'r un ag ebillwydd pedryfal. a lle ysgrifener ag inc ag nid a chyllell, nid rhaid rhigoli canolwyneb yr ebill; rhai a wnaethant yr ebillwydd fal hynn herwydd trosdor



a mwy lled yr, lla* meddant yr ochrau fal hynn ac o hynny hwy a mwy'r llythyrau, heb fwyhau trymder peithyren. eithr cymmaint gwell ag y tal* trafael.

“Rhaf a fynyglant yr ebillwydd fal y galler eu rhoi* mewn cyrfin billwydd, a chyda hynny a wnant dyllau ymhennau'r ebillwydd mal y galler llinyn drwyddynt er hawsder dwyn gydag un. sef eu dwyn ar liny yn ffagell yn lle dwyn ynghyrfn pillwydd, gwybydded pob un ei achos ai amcan ai Awen.

* Mannau aneglur.

“Gofaler i'r pillwydd gaead yn gadarn ac yn ogynglyn am fyn-yglau'r ebillwydd, yn cadw y cwbl yn gyfrill ynghyd.

“Rhill y gelwir y maint a gyrfinir ynghyd, o'r ebillwydd, mynychaf pedwar ar hugain, a rhai a gyrfinant chwech ar hugaint, eraill saith ar hugaint, sef y tri naw, ac mewn peithynen cynnifer rhill ag y bo gofyn.

“Trythor hyd pillwydd



“Trythor traws




neu hyn



“Y pillwydd dau hanner a glymmir yn dynon ynghyd a llinynon o dannau crwth neu delyn, sef cadarnaf ydynt. rhai ai rhwymant a llinynon sidan neu a rhibanau sidan. a dwyn pob llyfrau mewn cwd sidan gwyrdd.

“Modd arall ar lyfr yw Rhôl, a honno a wneir a phren crwn, a fynygler yn fain yr hyd y bo achos yn y canol, a deupen iddo ynghyssefin refder y pren, hyd cymmal bawd, neu led bawd, fal hynn



a thrithwill drwy'r meinder a thrwyddynt ddodi llinyn i ddiogelu plagawd neu bapyr a ddoder yn ddail i droi am y rholl* gynnifer. dalen ac a fynner, neu a fo achos, ac ynghyd a'r dail yn uchaf arnynt ddalen sidan hwy na'r dail papyr i droi am y cwbl yn orwias am yr ysgrifen iddei gadw yn lan ag yn ddinam. a ffordd honn a gad ar ddeall ag arfer gwedi cael gwybod am blagawd, a gwedi hynny gwybod am bapyr.

“Gwedi Rhôl fe ddychymygwyd y llyfrau y sydd yn awr ar arfer. yn amser Lles ap Coel y Brenin Bedydd cyntaf yn Ynys Prydain. Eisoes y Beirdd ar prydyddion a gadwant ar gof ac arfer yr hen gymmygedau ar Lyfrau, er cof a chadw pob hen gelfyddyd herwydd Cenedl y Cymry. ag gwybod a ddichoner ar un peth neu fodd, lle nas gellid ar arall o beth a modd gan anesgoroldeb dynghediw, ag nis dyli't coll ar un rhith gwybodau daionus.

* Rhôl ond odid.

“Llymma'r modd herwydd llun a gwedd y torrer Llythyrau Coelbren y Beirdd, sef a chylllell finllem au torrer, a thorriad croyw ewinawg.

“Un llythyr ar bumtheg o brif lythyrau a fuant o'r dechreuad er cyn cadw ar gof gwybodau a'r rhai hynny a fuant ar addysg ac arfer gan yr hên Gymry o Brydyddion a Beirdd a dysgedigion Llythyr eraill. a llyma nhwy.

U N D S

Λ √ ∩ ∪ √ W √ √ < √ √ > N √ √ √

“Gwedi hynny dychymygwyd eraill nid amgen

V Y √ neu U K √ N √ neu H

“Gwedi hynny dychymygwyd eraill, ag y cwblhawyd y Goelbren yn ddeunaw ar hugain llythyr, gwarantedig o bwyll ac awdurdod gorseddau, a Beirdd a dysgedigion. a llyma'r cwbl o hynny.

“Deuddeg llythyr goslef y sydd nid amgen

Λ Λ √ √ ∩ ∪ √ V √ Y √ √

“Chwech Cydsain ar hugain y sydd nid amgen. deuddeg Cysefiniaid mal ai dangoswyd or blaen, a phedair llythyr ar ddeg adlawiaid.

“Sef y Cysefiniaid,

√ neu o fodd arall, √, W neu W, √ neu √, √ neu √,
 <, √, √, neu √, >, √, neu N, √, √, neu R, √,
 neu S.

“Sef adlawiaid y rhain, nid amgen,

√, neu U, √, √, K, √, √, neu K, √, √, neu
 √, √, √, N, √, √, neu H, √, neu K.

“Ac fal hynn yn Rill herwydd yr hen gelfyddyd ar ddosparth ar Lythrau.

Λ, Λ, J, J, I, O, O, Λ, Λ, X, Y, Y.—V, E.
 X, W, Γ, R neu N, X.—C, K, X, C, X neu K neu
 K. ↑, H, >, D, Δ, H, L, H, Y, V.—Y neu S—
 h, G.

“Gwedi dyfod y ffydd ynghrist y Saint ar Meneich a gymmysgasant Goelbren arall amrafael yn amgenu ar Goelbren y Beirdd, a hi a dynwyd o'r Lladin. a llyma'r llun a'r agwedd y sydd arni, nid amgen

A neu A, B neu b, C neu K, D neu d, A neu E
 neu E neu E neu E, F neu F, C, H neu h, I, h
 neu l, M neu H, N, O, P, R neu Γ neu K, Y
 neu S, ↑ neu T, V neu H neu U, W neu W, Y
 neu Y, Y.

“ag unarhugain ydynt. ag ugain herwydd eraill sef gadael ym maes Y.

“A gwedi caffael honn yr hen awduron a gymysgynt yn eu coelbrennau beth o'r naill a pheth o'r llall or ddwy goelbren uchod a ddarddangoswyd, sef Coelbren y Beirdd a Choelbren y Meneich, mal y byddai'n oreu ganddynt ac y byddai ar bwyll ac Awen ganddynt.

“Gwedi cael celfyddyd plagawd fe ddaeth aball ar lythyru coed. eisoes y Beirdd a'r Prydyddion a gadwaint yr hen gelfyddyd ar wŷdd, a hyd yn ddiweddar o amseroedd nid oedd un o gant o'r prydyddion dosparthus nas medraint y Goelbren au gwneuthur au dwylaw eu hunain mal y gofyn prif ddefod y Beirdd, sef Tripheth y dylai Bardd eu gwneuthur ai ddwylaw ei hunan, ei Goelbren ei

Rôl, ai Blagod. Llauer heb law'r Prydyddion a fedraint y Goelbren hyd yng nghof rhai sy'n fyw yn awr. a llauer un yr amser a fu nid pell yn ol a gadwaint eu cyfrifon Teulu ar wÿdd yn dorredig a Chylllell."

Ymddengys yr adysgrif rhagflaeniadol yn llwyr fal ag y mae y Cyfarwyddyd yn llaw Iolo Morganwg, *gwall-ofalon* a chyfan; ac eglur yw fod dau neu dri o'r cyfryw yn gynnwysedig ynddo. Yr wyf, ambell waith, wedi rhoddi croes dann, yn fy nhyb i, y manau beius, megys, angnghyno yn lle anghryno, rholl yn lle rhôl, &c. Yr wyf hefyd, lle mae bai wedi ei ddiwyllio uwch benn, neu dano, yn dynwarded y cyfan dann olwg.


Y mae amryw *ddarnau* yn fy meddiant, yn rhoddi hyfforddiant parth *Coelbren y Beirdd*, ond eu bod, gann mwyaf, yn ddiennw. Arfer gyffredin gann ein hen awduron oedd cyfrannu addysg yn null *Hawl ac Atteb*; ac fal hynn yr wyf yn cael yn fynych y darnau rhagddywededig. Wrth un o honynt mae enw *Sion Cent* yn gysylltedig; (blodeuodd rhwng 1360 a 1420;) ac wrth un arall *Ceraint Fardd Glas*, (tua 860 yn ei flodau.)

Cyfaddedig yw, i *Geraint* ysgrifennu Gramadeg Cymmraeg; a dywedir mai ei waith ef, yn ychwanegedig, a rhoddwyd, oesoedd wedi hynny, dann enwau *Einion Offeiriad* ac *Edeyrn Dafnodd Aur*. Yr oedd Gramadeg Ceraint ei hunan yn Rhaglan, cynn i ryferthwy felldigedig Gwrthryfel rhoddi y cyfan yno i'r Tân. Gwae ni! na losgessid elyllon y ddwy blaid, yn lle'r llyfrau gwerthfawr. Dyna'r difrod a achlysuodd, mor alaethus, wâd-fref gwrthwynebwy'r ein cynddysg,—yn Gymmry afryw, gymmaint ag yn Saeson eiddigus.

Llymma Gyfarwyddyd amrafael, tynnedig o un o'r darnau crybwyllledig.

"Cymmer goed bychain pedryollt ynghylch hyd cyfelin, ai hochri'n deg ag yn gywir ag yn llyfn yn y pedwar ochr, au trwch ynghylch pedryfed modfedd neu ychydig bach drosbenn hynny yn gydfaint lled a thrwch sef amcan ar hyd heiddyn ymhob ffordd yn rhefder y pren. a gwedi gwneuthur yn barod hyd hynny rhâth ychydig ar yr ymylau sef conglau'r coed hyd yn lled degfed neu ddeuddegfed modfedd, a hynny fal pan dorrer y llythyrau ar un o'r ochreu nad ymddangoasant arnynt un ochr arall. eithr yn yr ymyl rathedig yn unig. gwedi hynny mynyglu'r coed hynn o fewn i ddau hyd heiddyn at y pen yn grymion a thrwch ewin neu ddalen gawl yn ddyfnach

nac wyneb y pren, a thrwsio'r neillben yn drefnus ag yn binc fal y bo hardd ei olwg ag esmwyth dan fys iddei droi. ag yna parod fydd y pren. ag ef a elwir ebill a'r lluosawg arnynt a elwir ebillion. ac fal y gwelir yma y fydd yr olwg arno.



ag ar hynn o bren neu ebill y torri'r llythyrau a chyllell yn rynnau bychain trwch dalen neu gawnen fechan a chyflod a chawnen fain o wair a thorri pob rhynt yn deg ag yn loyw o dorriad, a gwedi torri ar un ochr torr ar y nesaf, ag felly ar y pedwar ochr, a gofalu na thorrot yn ddyfnach na'r rathfa ar yr ymylau, gwedi torri ar y pedwar ochr dos at bren arall, ag o ebill i ebill yny bot wedi torri'r cyfan or gerdd neu'r araith a fo'n damcan. gwedi hynny cymmer bedwar prenn at y pillwydd sef pillwydd y gelwir y coed hynny, ag o honynt y gwnei gyrfin ymha yn y rhestrir yn drefnus ag yn ddiogel yr ebillion llythyredig. a llyma luniau y pillwydd



sef ymhob un y gwneir rhestr o ryntau bychain hanner cylch. yn ogymaint a hanner mynyglau yr ebillion, a gofalu bod rhynt y naill bren o'r pillwydd yn gywair gyferyd ai gymmar yn y llall. a phan gwblheir dau yna eu doddi ynghydgysswllt ag wedi hynny dodir ebillion gerfydd eu mynyglau yn y pillwydd, ag yna rhwymaw'r ddau billwydden am y mynyglau a wneir ar bob pen iddynt ag edau gref o sidan neu a man dannau telyn neu grwth. neu a gwifellipres* meinion, neu a manewynau llwdn hydd. gwedi hynn gwna'r ddau billwydden eraill yn yr un modd a dod ynddynt yr ebillion gerfydd eu mynyglau pen arall iddynt. a rhwymaw arnynt fal y gwnaed ar pen arall. yna bydd gadarn a threfnus yr holl ebillion pob un yn ei le yn gywair, ag o bydd achos herwydd hyd y gerdd neu'r araith gwna garfen arall, canys ni wedd parth cyweithasder fod dros o bedwar i ddeg ar hugain o ebillion yn yr un garfen, achos hynny y gwna ddwy neu dair neu'r maint a fo achos wrthynt. gwedi cwblhau'r garfen yn gywair hi a elwir *Peithyren*. a phob un or ebillwydd a droant* ynddi ynhawdd. sef pan y darllener un ochr o ebill, ei throï fal y ceir yr ochr arall iddei darllein ag fal hynny am y pedwar ochr,

a throi gyda'r haul neu at y llaw ddehau, a gwedi darllain un ebill myned at y nesaf is ei llaw, ag felly o'r naill i'r llall onid eir dros y cyfan. a chofio bod y pen trwsiedig addurnwaith at y llaw ddeheu fal y gellir a honno droi pob un o'honynt yn hawdd, ag y deliaidd. eraill a ddodant yr ebillion bob yn ail pen y bys un at y llaw ddeheu ar llall at y llaw chwith. werstragwers a bydded hynn fal y bo goreu gan ai gwnelo.

"Y mae'n gofyn cylllell lem i dorri'r rhynnon yn glaeloywon, a llaw gelfydd deliaidd.

"Lled pob hanneryn or pillwydd a fydd dau hyd heiddyn neu rhyw faint lai a thrwch pob un pedryfed modfedd, ag nid cyweithas bod mwy nag a wedais ym maint y coed deunydd fal na bont ry drymion, ac anghyweithas eu dwyn au darllaw (darllofi.)

"Gofaler bod pob rhynt yn gywair ei agwedd y gorfynyddion ar bob llythyryn yn gywir ei safiad heb oleddu at na'r naill llaw na'r llall, a bod y goleddfon yn lleddfu'n gywair herwydd y dilyent yn ol y bo ffurf y llythyren.

"Ar y pen hynny or ebill a fo drwy'r garfen y pillwydd y tu chwith y gwneir rhynt ei rif ac felly ar bob un ei rif. fal y bo hawdd gosod pob ebill yn ei gyffe heb orfod ei ddarllain ag eraill o'i flaen ag ar ei ol, a'r rhifoedd hynn a wneir mewn dwy ffordd, un yw cynnifer rhynt ag y bo rhif yr ebill yn y beithynen, ail yw a'r llythyren rif y bo achos.


"Gofala bod pob llythyryn parth ei rynt yn o gymmhraff. os amgen anhardd y byddant i'r olwg.

"Goreu o bob coed i weithio peithynen yw planhigwydd deri ieu-einc cyfref ag y bo digon o faint yn yr ebillion gwedi hollti'r pren yn bedwar a naddu oddiar bob pedryfed y rhiag ar gwynnin yn gwbl, au sychu'n dda cyn au cwblhäer ag au llythyrer. a goreu am* torri'r coed yw'r gwyl Fair.

"Goreu coed am hawsder naddu a rhyntu yw coed cyll pedryollt, a neu goed helig pedryollt, au sychu'n dda cyn au llythyrer, a goreu ar bob helyg y merhelig. Eithr yr hen Brydyddion a geisynt goed cerdin gan eu barnu'n goed cyferddawl* am nad yw pryfed yn eu bwytta nag yn eu llygru. ag nad oes na gwag yspryd nag un ellyll drwg a drig lle bo cerdin, ag nas oes na swyn na chyfaredd a all ymafael a cherdin na'u drygu na'r neb a'u dycco, ag nad oes un gwenwyn marwol a eill gyffwrdd ag hwynt.

* *Amscr*, ond odid, a feddylir ymma. Mae y sillaf *am* fal hynn ar ddiwedd llinell, a'r gair heb ei gwblhau yn y nesaf.

“A'r ffordd honn ar lythrau yw hen ffordd y Cymru cyn dyfod Estroniaid i Ynys Prydain. eithr gwedi, caffael gwybodaeth o'r ffydd ynghrist, fe ddaeth ysgrifennu ar groen ar ddeall ynghymru, fal ag y mae yn awr, a gwedi cael hynny ar wybod. fe wnaethpwyd RHÔL ag ar honno y doded y croen ysgrifenedig ai throi ai rhwymaw am dani, a llyma ddull y rhôl a hi a wneir o bren a fynner eithr cerdin y bernit yn oreu am y cyferddonau a gaid ar y pren hynny



ag am feinder y rhôl tu fewn i'r pennau y dodid y crwyn llythyrog cynnifer croen ag a elai am y rôl, au troi au rhwymaw am dani. gwedi caffael papr ef ai arferwyd yn lle crwyn fal y mae ynawr. a chyweithasaf o bob ffordd ar lyfr ag ysgrifen yw rhôl parth hawsder a diogelder ei chadw ai dwyn. eithr nid mawr ai harferir ynawr namyn yn arddangos yngorsedd a chadair gan a ofynner iddo gadw rhol dosparth y gelfyddyd wrth gerdd ag ar achau a breiniau gwlad.”

Nid yw yr ail hyfforddiant ymma, parth defnydd a gwneuthuriad Coelbren, yn rhoddi lluniau ac agwedd yr hen Egwyddor neu lyth-yrennau, fal yr un blaenorol; am hynny, nid ydyw mor awdurdodol a gwerthfawr; etto i gyd, gwelir ei fod yn cynnwys arwyddion tu-fewnol o'i heneidrwydd. Mae llafarsain Essyllwg trwyddo; ac y mae yn ymhelaethu ar rhai bethau, er yn fyrr ar eraill. Gwannach defnyddiau a thorriadau a enwir, hefyd, ynddo, nag yn yr un o'r blaen.

Mae yr un Ysgrif, sef “Cyfymbwyll rhwng Dysgybl (weithiau Maccwy) a'i Athraw,” yn ychwanegu ychydig ym mlaen, ar y *Rhôl* fal hynn,—

“Dysg.—Pwy a wnaeth rôl gyntaf ar lythyr?

“Athr.—Bendigeidfran fab Llyr Llediaith a ddysgawdd y ffordd honno yn Rhufain ag ai dug gydac ef i Brydain lle yi dysges ef hi i'r Cymry a'r modd y trinig crwyn mynnod a geifr mal y gellid ysgrifen o lythyr arnynt. a'r ffordd a aeth ar arfer hyd nad oedd namyn y Beirdd yn ymarfer megis o graffymachub ar hen ffordd o ddodi llythyrennau ar goed, er cof a chadw ar hen wybodau Cenedl y Cymry ag o hynny ydd aethpwyd iddei galw hi Coelbren y Beirdd ai ceidw ar gof drwy naddu yi cerddi au coelion cof ar goed herwydd yr hen gelfyddyd. a hynny er cadw cof coeliadwy ar brif wybodau cenedl y Cymry.”

Gwelir fod y synniadau uchod yn taflu golau amlygiadol ar yr hen gelfyddyd o dorri ar goed ; ac yn eglurhau iawn darddiad ac ystyr yr enw, Coelbren y BEIRDD.

Mae Llywelyn Sion yn dywedyd nad oedd yr hen Feirdd a Dysgedigion, i gyd, yn torri llythyrennau egwyddor y Coelbren yn gyflwyrwedd, gann fod rhai o honynt yn rhoddi ambell un yn amrafaelfodd.

Mae yr amrywiaeth hynn, betn bynnag, yn cadarnhau ei heneiddrwydd, yn hytrach nag amgen; canys y mae aml engreiffitiau nad oedd awduron *cyfoesawl* yn arfer unrhyw egwyddor arall yn hollol gyffelyb, a gadael heibio amrafaeliadau *gwahanol* oesoedd.

Canfyddir fod yr Egwyddor ganlyniadol yn cynnwys llawer o'r amrywiaethau crybwylledig.

“COELBREN Y BEIRDD,

HERWYDD DOSPARTH LLAWDDEN.

	Λ	A		◁	G		Ɔ	R
	∨	Â	✕	⊗	NG		Ɔ	RH
	∨	B		H	H		Ɔ	S
	∨	V		I	I		↑	T
Η	∨	M		∟	L		∟	TH
	∨	C		∟	LL		∟	NH
∟	∨	CH		M	M	U	∨	U
∟	∨	NGH		N	N		∨	W
	∨	D		◊	O		∨	Y
	∨	DD		◊	Ô		∨	Û
	∨	E		∟	P		∨	Y
	∨	Ê		∟	PH			
	∨	F		∟	MH			

Rhai a ddodasant

B a b yn lle l.

K yn lle c.

N yn lle k.

S yn lle y.

H yn lle h hefyd H a h

M yn lle W.

P yn lle N neu H.

P a h yn lle y.

R yn lle v.

W yn lle v.

W yn lle v w.

K ag f yn lle k.

ð yn lle d.

þ yn lle þ hefyd þ

mal ei þ a þ i ferch.

V yn lle y.

ð yn lle >.

þ yn lle þ lle bai þ

yn wreiddiol, mal pei

dywedyd ei þ a þ

i fab.

ʀ yn lle n.

T yn lle t.

N yn lle f.

“Eithr goreu o'r cyfan yw'r hen goelbren fal y dodwys Wilym Tew hi yn ei lyfr cerdd dafawd, a hawsaf ei thorri ar goed; a lleiaf ei gwaith.

“Rhai a ddodasant K heb V gyda hi, a bai yw hynny, canys pwys C H y sydd i'r K. ag nid mwy, am hynny dylit dodi C V A H T, ag nid K A H T.

“Llyma foddion eraill ar Goelbrenni fal y gwelais i hwynt gan Meurig Dafydd.*

X B C D E F G H I K M N P R S T U W V Y
 a b c d e f g h i k m n o p r s t u w y”

See Runic.

* Eglur yw mai synniadau Llywelyn Sion ydynt y rhai a welir tua gwaelod y Goelbren uchod, oddieithr y geiriau “See Runic,” pa rhai, yn ddiawm, ydynt eiddo Iolo Morganwg. Yr oedd Llywelyn Sion yn ieuangach gwr na Meurig Dafydd; ond yn y rhann gyntaf o'i einioes, yn dra chyfeillgar âg ef.

COELBREN Y BEIRDD.

HERWYDD

DOSPARTH IOLO MORGANWG.

(*Tynnodig o'i weith Beceing of dawns yr awn, "History of the Bards."*)

"The Welsh Bards have, from time to time immemorial amongst them a remarkable method of writing, inscribing, or engraving on slender billets of wood. The following is their Alphabet, with an explanation of it; it is retained now only by the very few that remain of the genuine successors of the Antient British Bards, who have, of late ages, existed unknown to the world, and who are able to give very respectable accounts of their Predecessors; but, being unknown, they have, consequently, never been consulted by the too many Historians of the Antient British Bards that have lately appeared, who, unavoidably, know very little of their History."

Bards' Alphabet. Modern Welsh Alph.

VOWELS.	1	∧	A, à, short	A, short, as in the English words, bad, sad, can, man, &c.
		∧	A, â, long	A, long, and something broad, in the <i>Silurian</i> and <i>Venedotian</i> dialects, as in calm, balm, &c. English.—In the Dimetian Dialect it is very broad as in—hall, call, &c.
	2	∨	E, è, short	E, short, as in the English—pen, den, bed, fed, &c.
		∨	E, ê, long	E, long, as in clean, bead, heal, &c.
	3		I, i,	I, as <i>ee</i> in the English—Queen, seen, feel, feed,—or <i>i</i> in machine, &c.
	4	◇	O, ò, short	O, short, as in God, nod, rock, sock, &c.
		◇	O, ô, long	O, long, as in—bone, stone, hole, stole, abode.
		∇	W, w̄, short	OO, short, as in good, wood, stood, &c., and as <i>u</i> in bull, full, pull, &c.
		∇	W, w̄, long	OO, long, as in fool, cool moon, rood, brood.
		Y	Y, ȳ, short	Y, Greek Y, V, short, or French <i>u</i> ; <i>i</i> , in <i>this</i> is something like it.
	Y	Y, ȳ, long	Y, the same. As the French—mûr, &c.	
	Y	Y, ȳ,	As U, in bud, gun, burr, sun, mud, dull, &c.	
LABIALS.	5	L	B, b,	B, common.
		Ɔ	F, f,	B, soft, the same as <i>v</i> in vain, brave, &c. No radical.
		∇	M, mutata	M, the mutata of B.
	6	W	M, radical	M, radical, varying in form from the foregoing, for etymological reasons.
	7	∇	P, p,	P, common.
	8	Ɔ	Ff, f,*	PH, or F, as in—Philip, fill. The aspirate state of P.
	∇	Mh,	MH, liquid state of P. No radical.	

* Tradition says that the original Alphabet consisted of only sixteen characters, which are those distinguished by the Arabic numerals.

Bards' Alphabet.	Modern Welsh Alph.	
GUTTURALS.	9 <	C, c, K, or C, in can, call. Never as in City, &c.
	K	Ch, ch, X, χ, Greek. Guttural aspiration of C. No radical.
	X	Ngh, ngh, Naso-guttural aspiration; or a kind of liquid state of C, or K. No radical.
10	<	G, g, G, common, as in—God, good, &c. Never as in George.
	ø	Ng, ng, Liquid state of G. No radical.
DENTALS.	11 ↑	T, t, T, common.
	↗	Th, th, TH, the aspirate state of T. No radical. Hard as in faith, &c.
	↖	Nh, nh, Liquid, or nasal state of T. No radical.
12	>	D, d, D, common.
	▷	Dd, dd, Soft state of D, or as the English <i>th</i> , in Father, bathe, &c.
	▷	N, mutate N, common; but in this form, for etymological reasons, as the liquid, or mutate of D.
13	↖	N, radical N, radical, common.
	↖	Ll, aspirate L, aspirated, as in the Spanish, or nearly so.
	↖	L, l, liquid L, common, liquid state. No radical.
LINGUALS.	14 ↖	Rh, rh, R, in its usual aspirated state, as it is, perhaps in all languages when radical.
	15 ↖	R, r, soft R, soft, as the last R, in rare, &c. No radical.
ASPL. RATES	Sibi 16 16 Y	S, ss, S, common.
	H	H, h, H, common, aspiration of vowels.
	◁	Wh or chw Pronounced in the Silurian dialect, as <i>wh</i> , in the English words—what, where, why;

but in the Venedotian dialect, it is always guttural, and pronounced, as if to these English we should add the Greek χ, and pronounce χwhy χwhat χwhere, &c. There is no word in the Silurian *radically* guttural.

Yn gymmwys ar ol y Ddosparth ddiweddaf, mae yr hen Bencerld, fal pei bu-
 assai ei enaid glew yn ymarfogi yn erbyn gwrthwynebwy'r amgylchynniadol, yn
 cyfeirio at un o'r Cyhoeddiadau cyfnodol Seisnig, ac yn rhoddi y tynniad canlyn-
 iadol o hono; gann ei farnu (ac yn gyflawn) fal dyweddiad tueddol i feithrin *ym-
 bwyll* ym meddyliau Dysgedigion ag oeddynt wedi penderfynu, mor fyrbwyll,
 yn erbyn gwir hanfodoledd Coelbren y Beirdd; a hyany trwy ddiffyg iawn wy-
 bodaeth ar y pwngc.

“We deprecate the rudeness of self conceit that can *brave* CONVICTION, as well
 as that determined spirit of discovery that can *surmount* every obstacle.
 Crit. Review, Nov. 1804, of the Oxford Homer.

(I.)
DOSPARTH GYFERBYNIADOL AR EGWYDDORAU
GWAHANOL,
(Tynniedig etto o'r un gwaith gann Iolo Morganog, ond sylwer fod
yr ymadroddion ymma yn gyfeithiedig.

Egwyddor Gyffredin.	1. Coelbren y Feirdd yn ol trefn yr Egwyddor Rhufeinig.	2. Coelbren y Meneich.	3. Egwyddor Beddfeni Llan-Ulind-fawr, &c.
A	Λ Δ	Δ Π	AA A α
B	β	BB	B β b.
C	<	C < K	C C
D	>	Δ Δ	δ
E	≠ ≡	Λ E E E	E E Θ
FF	Ɔ	F F	F
G	ϸ	G	G 3
H	h	H H	H h
I	i	I	i
L	λ	λ λ	λ λ λ
M	W	M H	π H M M
N	η	N H	N N η
O	ο	ο	O
P	ρ	ρ ρ	P P ρ
R	ϱ ϱ ϱ	R H	ϱ ϱ ϱ ϱ ϱ
S	ϣ ϣ	ϣ ϣ	ϣ ϣ
T	↑ T	↑ T	τ T τ
W	V	V U U	U U
Ŵ	V U	W U U	V
Y	Y	Y Y	χ (X)

(II.)

DOSPARTH GYFERBYNIADOL AR EGWYDDORAU
GWAHANOL,

(*Tynniedig etto o'r un gwaith gann Iolo Morganwg, ond sylwer fod
yr ymadroddion ymma yn gyfieithiedig.*)

4. GALLICUM VETUS, Ex Mabillon De Re Diplomata.	5. RUNIC.		6. ETRUSCAN. O "Geri's Inscriptions." Ni chafwyd yr Egwyddor honn yn gyflawn hyd yn hyn.	Egwyddor Gyffredin.
	Oddiwrth Olaus Wormius.	"O Geri's Inscriptions."		
AA	Λ	Α Α	Α Ϝ	A
BB	Β	Β Β		B
CK	Υ	ϸ ϸ	< ϸ	C
Δ	ρ	Δ Γ		D
Ε	ϣ	ϣ Η	Ε Ε	E
Ε	Ϝ	Ϝ Μ	Ρ Ρ	FF
ϸ	Υ	ϣ Ν		G
HHh	Χ	Η Η	Θ	H
I	Ϝ	Ι Ι	Ι Ϝ	I
Λ	ϸ	Λ Κ	Λ Κ Ϝ	L
MM	Ψ	Ϻ Υ	Ϻ Η	M
HN	Υ	Ν Ν	Ν Η	N
Ο	Ϝ	Ο Ϝ	Ο Ϝ	O
ΠΠ	Β	Π ϸ	ϸ ϸ	P
R	Ρ	Ρ Η	Δ Ρ	R
SZY	ϣ	ϣ ϸ	ϣ ϣ ϣ	S
ΤΤ	↑	↑ Τ	↑ Τ ϸ	T
VV	∩	Υ Ε		W
	ϸ	Ψ Ϝ		Y
X				

Rhif I. yw Coelbren y Beirdd yn ol trefn yr Egwyddor Rhufeinig. Gan fod yr Egwyddor honno mor wybodus i bawb, hawdd, herwydd hynny, fyddai cynmharu y rhai eraill gyda hi.* Ni rhoddydd todd-iadau a chyfnewidiadau y prif lythyrennau, (sef y rhai cyseffin) ymma, gann nad ydyw'r cyfryw ond rhai diweddarach na'r lleill; gwaith sicr yw na's gellir eu cyfnodi ym mhellach yn ol na'r 10fed, neu, fe allai, y 12fed ganrif. Llythyrau llymdro (*angular*) yw'r cyfan o'r rhai a welir yn hen egwyddor y Coelbren, gann nad ellir, gydag unrhyw rhwyddineb na chywreirwydd, dorri'n amgen ar goed. Mae rhai, er syndod, yn cyfrif hynn yn ddigon o ammheuaeth i heneiddrwydd yr egwyddor. Onid trwy hir arferiad y lluniwyd y llythyrennau mor atebol i ddefnydd coed? Gyda'r ystyriaeth hynn, (a seiliedig ydyw ar graig gwirionedd) yr un mann fyddai gwadu gwirfod yr Argraphwasg, gann fod honno, o ddiwygiad i ddiwygiad, yn awr wedi ei gwneuthur bronn yn berffaith.

Oddiw'rth y Dosparthiadau cyferbyniadol, rhoddedig eisioes, ac iddeu rhoddi, gwelir, ar un golwg, fod llythyrennau Coelbren y Beirdd yn tarddu o'r rhai Rhufeinaidd a Groegaid, a'r rhai hynny, y mae'n debyg, oddiw'rth dystiolaethau dysgedigion pennaf ein hoes, yn ddeilliedig oddiw'rth lythyrennau cynddysg y byd.

Yr oedd *torri ar goed* yn gelfyddyd arferedig gann genhedloedd henaf llênnyddiaeth. Mae aml grybwylliadau at yr arfer honn iddeu gweled yn yr HEN DESTAMENT; ac i fyfyrdod Pwyll, eglur yw, oddiw'rth gweddillion y cyfryw ddefod hyd heddyw yn eu plith, iddi fod yn arferedig gann y Saeson, rhyw oesoedd; pa un ai fal modd o gadw cof llythyrennol o'u gwybodaeth, neu fal trefn o gyfrifon a chofnadau, yn nifyg llênnyddiaeth, anhawdd fyddai, yn awr, rhoddi barn gyfiawn; herwydd, gyda chyflwyr gyfnewidiad eu hiaith, collasant eu holl draddodiadau gwladol, ynghyd â'u gwybodaeth, os meddiassant hynny erioed. Yn wir, nid oes argoelion iddynt feddu dysgeidiaeth pann y daethant gyntaf i'r Ynys honn, na dros amser wedi hynny.

Rhif II. yw Coelbren y Meneich; a sylwir nad ydyw yn amrafael, yn *fawr*, oddiw'rth Coelbren y Beirdd. Mae hi, beth bynnag, yn agosach i'r egwyddor Rhufeinig na honno.

Mae yr egwyddor honn, hefyd, yn hollol addassedig i goed, gann fod ei llythyrennau yn *llymdro*. Pei gwnelit eu troadau yn *grynnion*, ni fyddai ond ychydig bach o wahaniaeth rhyngddynt a'r rhai Rhu-

* Nid oedd yr Egwyddor Gyffredin yn ysgrif Iolo Morganwg na Gwyddon; ond ychwanegwyd hi gann yr Argraphydd, er egluro y Ddosparth.

feinig. Darfu i'r Cymmry, yn *hir* wedi derbyn Cristionogaeth, lynu yn dynn wrth eu hen ddefodau, cynn belled ag y gallasant, heb ddychwelyd i Dderwyddiaeth. Yn wir, gwyddys iddynt wrthsefyll llawer o ddefodau Eglwys Rhufain; am ba achos y gyrrwyd arnynt yn gynnar, Esgobion estronawl; canys, wedi ychydig o'r rhai cyntaf, anaml y cair enw Cymmraeg yn eu plith. Yr oedd y Meneich Cymnreig yn roesawgar iawn i'r hen Feirdd, ac yn eu derbyn, yn eu henaint, i ymborth eu noddfa. Y duedd hynny, yn ddiammau, a achlyssurodd Coelbren y Meneich. Ond gann nad oeddynt, tebygir, yn arfer yr egwyddor honno, ond ar achosion neillduol, cyfnewidiwyd hi, yn gynnar, ar *feini*, i—

Rhif III. Egwyddor Fynachol arall, a'i dechreuad yn y bummed ganrif, os nid yn gynt. Ymddengys yr egwyddor honn ar amryw o hen feddfeini Llanulltud Fawr, a manau eraill, megys Llangrallo, Y Merthyr Mawr, Llandochau, Penn-Arth, &c.

Fal nas gallessid, yn gywrain, dorri yn *gryndro* ar goed, nid hawdd fuassai, hefyd, torri yn *llymdro* ar feini; gann hynny, cyfnewidiwyd llunwedd llythyrennau egwyddor y Meneich i agwedd yr egwyddor honn.

Gosodwyd Ulltud Farchawg yn Benrhaith ar Fangor a sefydlodd Garmon Sant yng Nghaerworgorn, (wedi hynny Llanulltud Fawr) tua'r flwyddyn 430. Canlynodd Samson ef i'r swydd, tua diwedd y ganrhif honno; ag efe a gododd Grwysfaen i enw ei Rhagflaenor, a chrwysfeini eraill er cof am ddau dywysog (dann enw) o'r dalaith, ag oeddynt wedi anrhegu y Fangor. Mae enw Samson yn dorredig ar y crwysau hynn, er mynegu ei amcanion. Mae Usher, Stillingfleet, ac eraill o'n hynafiaethyddion godidoccaf, yn cyttuno parth ei sefyllfa, a'r amser y blodeuodd Ulltud; maent hefyd yn enwi Samson.

Rhif IV. yw'r hen egwyddor Galaeg (neu Ffrengig) yn ol hen feddfeini. Mae honn yn ddigon tebyg i'r Etruscan a'r Pelasgic i beri cred ei bod yn tarddu o honynt.

Rhif VI. yw'r hen Etruscan, yn ol Main-yagrifau Gori. Egwyddor arferedig ym moreuddydd llênyddiaeth yw honn; ond ni chafwyd hi, hyd ymma, yn gyflawn. Mae rhai yn barnu nad oedd y Rhufeiniaid, yr amser y daethant i'r Ynys honn, yn deall na iaith nag egwyddor yr Etrusciaid.

COELBREN Y BEIRDD,

HERWYDD

DOSPARTH GYFARWYDDIADOL GWYDDON,

(Ygrifennydd y Traethawd hwnn.)

LLAFARIAID.	1	Λ	A	a	byrr,—fal yn cann, glann, tal, mal, carr, gwarr.
		Λ	A	â	hir,—fal yn cân, glân, tâl, mâl, câr, gwâr.
	2	∟	E	e	byrr,—fal yn gwenn, penn, llenn, herr.
		∟	E	ê	hir,—fal yn gwên, sêr, llên, hên.
	3	∟	I	î	Fal yng nghyffredin.
	4	◊	O	o	byrr.—fal yn—honn, fonn, tonn, corr, morr.
		◊	O	ô	hir,—fal yn sôn, Iôr, tôn, côr, môr.
		∨	W	w	byrr,—fal yn crwnn, hwnn, pwnn, cwrr, twrr, swrth.
		∨	W	ŵ	hir,—fal yn cwn, brwd, cwd, gwr twr, swn.
		Y	Y	y, u	byrr,—fal yn byrr, hynn, gwynn, (u) Iesu, Cun, Duw.
GWEFUSOLION.		Y	Y	ÿ, u	hir,— fal yn Gwÿr, Gwÿn, Dÿn, (u) <i>weithiau</i> yn y geiriau uchod, ac eraill, ac ym mhob mann mewn geiriau, ond yn y sill ddiweddaf.
		Y	ŷ	ÿ	Fal yn—yr, yn, y, fy.
	5	∟	B	b	Fal B, yn Saesneg, a ieithoedd eraill.
		∟	F	f, v	Fal yn W A E .—Cyfnewidiad, hefyd, B i F, ac M i F, fal L A M D, J I E A M D; W A M K, J I E A M K.
		∨	M	m	Cyfnewidiad B i M, fal L A M D, E Y D A M D.
	6	W	M	m	Gwreiddiol, fal yn Mam.
	7	∟	P	p	Gwreiddiol, fal yn Penn.
	8	∟	Ff	ff	Fal ff gwreiddiol, yn ffordd; cyfnewidiad, hefyd, P i Ph, trwy gymmysg arfer.
		∟	Ph	ph	Cyfnewidiad P i Ph, yn <i>nechreul</i> .
		∟	Mh	mh	Cyfnewidiad P i Mh, fal P J M, E Y P J M.

9	C	c	Gwreiddiol fal C yn Cawr, fal y seinia k yn Saesneg.		
			Ch	ch	Cyfnewidiad C i Ch, fal CA M, JI KAM . Nid gwreiddiol yn yr hen Wenhwyseg, eithr gwreiddiol yn y Wyndodeg.
					Ngh
10	G	g	Gwreiddiol, fal G yn Garth, Gogoniant.		
			Ng	ng	Cyfnewidiad G i Ng, fal CA M M, EY SAM M .
11	T	t			Gwreiddiol, fal T yn Tad.
			Th	th	Cyfnewidiad T i Th, fal T A >, JI T A > .
12	N	n			Gwreiddiol, fal N yn Noeth, sef HO J T .
			Nh	nh	Cyfnewidiad T i Nh, fal T O M T, EY T O M T .
13	D	d			Gwreiddiol, fal D yn Duw.
			Dd	dd	Cyfnewidiad D i Dd, fal > A V V, JI D A V V .
14	N	n			Gwreiddiol, fal N yn Noeth, sef HO J T .
			Ll	ll	Gwreiddiol, fal Ll, yn Llaw. Mae sain Ll, dywedir, yn neillduol i'r Iaith Gymraeg. Dichon fod ychydig o neshâd i'r cyfryw yn yr Ll, neu Lh Yspaenaidd.
15	L	l			Nid gwreiddiol, cyfnewidiad Ll i L, fal N A V, JI K A V .
			Rh	rh	Anadliad gwreiddiol R.
16	R	r			Cyfnewidiad pludd Rh i R, fal V I, JI M .
			S	s	Gwreiddiol a digyfnewid, fal yn Sêr.
17	H	h			Nid gwreiddiol, <i>fe allai</i> , o'r dechreu; eithr felly ys oesoedd, yn y geiriau, Hardd, hwyr, &c. Nid gwreiddiol, yn ddiâu, pann yn arferedig i anadlu llafariad.
			Wh	wh	Nid gwreiddiol, er yn lled agos i hyny, yn yr hen Wenhwyseg, fal y gwelir yng

Nghyfreithiau Hywel Dda, gann y Dr. Wotton, ac mewn amryw hen Ysgrifau, fal yn y geiriau, hwant, hwith, whaer, yn lle y geiriau, yn ol y Wyndodeg, chwant, chwith, chwaer, &c.

Oddiwrth amryw eiriau neillduol yn y Iaith Saesneg, gellir feddwl fod yr arfer o dorri gwybodaeth ar goed yn gelfyddyd ym mhllith y Saeson ar rhyw bryd. Dywedir fod y gair *Book* yn tarddu oddiwrth y gair Saxonaidd am ffawydd, herwydd yr arfer o dorri llythyrennau a chadw cof ar ddefnyddiau o'r prenn hynny; ac, yn wir, prenn cwyraidd da yw hwnnw at yr achos, ac y mae fe, hefyd, yn sefyll yn dda heb gammu. Mae y gair *billet* yn cael ei arferyd am dammaid o *brenn*, ac hefyd am *lythyr* bychan: yr oedd yr ystyriaethau gwahanol ymma yn cael eu rhoddi i'r gair *staff*, (oddiwrth yr hen air Saxonaidd *staf*.)

Yr oedd y gair *write* yn cael ei arferyd gan y Saeson, yn nechreuol, i arwyddocau "torri ar goed," ac yn yr ystyr hynn y mae yn aros-hyd yn awr yn y geiriau *Shipwright*, *Millwright*, *Cartwright*, *Wheelwright*, &c.

Mae y gair Saesneg, *Paper*, yn tarddu oddiwrth y gair "*papyrus*, lliosog, *papyri*," enwau ar ddalen neu ddail a sydd yn tyfu yn y dwyrain, ar pa rhai yr oeddynt, gynt, yn ysgrifennu. Er fod y defnydd a elwir yn awr yn "bapyr" yn beth gwahanol iawn ei ansawdd, etto, mae enw y ddalen rhag-ddywededig yn cael ei rhoi iddo. Felly, mewn celfyddydau eraill, cedwir y cynn-enwau ym mlaen ar defnyddiau llwyr wahanol, os yn arferedig i'r unrhyw ddibennion.

Fal hynn, mewn cyffelybiaeth, y cynnalwyd enwau ym mlaen, gann y Cymmry, ar bethau perthynol iddeu dull o gofnodi gwybod-aeth. *Gwydd* oedd eu defnydd cyntaf, herwydd hynny, rhoddwyd yr enwau *Egwyddor*, a *Gwyddor*, iddeu llythyrennau, ac ar hynny seiliwyd llawer iawn o eiriau perthynassol, megys,—

Gwyddoniaid, hen ddysgawdwyr y Cymmry cynn y *Derwyddon*.

Gwyddawd a *Gorwyddawd*, dysgeidiaeth, celfyddyd.

Gwyddon a *Gwydon*, gwr dysgedig.

Cyfarwyddyd, hyfforddiant.

Egwyddorion, cynneddfau, addysg.

Tynhwyddyd, cyfystyr a chyfarwyddyd.

Cywydd, o'r gair *cydwydd*, sef *Peithynen*.

Cyfarwydd, dyn cyfarwydd, h. y. dyn gwybodus ar wydd.

Dedwydd, gwr dedwydd, gwr rhagorfreiniol.

Gwynwyddigion, gwyr o wybodaeth sanctaidd neu fendigaidd.

Arwydd, ymddangosiad ar wydd.

Mae Thomas ab Ifan, o Dre-bryn, (awdurdod da) yn dywedyd mai oddiwrth *celwydd* y deillia *celfydd* a *chelfyddyd*. Ystyr y gair *celwydd*, *ymma*, yw gwybodaeth cyfrinachol; felly, nid yw unrhyw

gelfyddyd yn wybodus i'r cyffredinolion. Mae hefyd y gair *celwydd*, yn ei ystyr *arferol*, yn arwyddo, dann rheolau "Naw gloes ymadrodd" (*Rhetorick*) y Cymry, diffyg gwirionedd, trwy gelu gwydd cyfiawn dystiolaeth.

Anhawdd fyddai, yn wastad, gwahanu rhwng y geiriau a derfynant gyda'r gair Gwŷdd, a'r lleill a derfynant gyda Gŵydd. Mae y rhai cyntaf a therfyniadau talgrynnion, yn ol cyfiawn sain, a'r rhai diweddaf yn lleddfon; ond gwyddys fod llawer o gyfnewidiadau wedi cymmeryd lle yn ein hiaith parth hynny. Hyd yn niweddar *uon*, oedd y sillaf diweddaf o'r gair *dedwydd* yn cael ei seinio yn dalgron, ond yn awr (a hynny yn feius) yn lleddf; ac mae eraill o'r cyffelyb derfyniadau wedi myned dann yr unrhyw gyfnewid; gann hynny, ni ellir, heb ymchwil gwreiddiol, gofalus, ymrannu yn gywir rhyngddynt.

Mae y gair *Cywydd* yn dywedyd llawer o blaid Coelbren y Beirdd. Yr oedd y gair hwnn, ar y cyntaf, yn cael ei roddi i'r mesur mwyaf arferedig gann y Cynfeirdd yn eu cyfansoddiadau cyffredin, ac yn cael yr enw, herwydd yr arfer o dorri y cyfryw ar *Wydd*; ond rhoddwyd y gair ymma i fesur llawer diweddarach wedi hynny.

Mae y geiriau *Egwyddor*, a *Gwyddor*, fyth yn fwy banllef ar yr achos, gann y gwyddys mai yr enwau cyntaf ydynt a roddwyd i llythyrennau y Gymmraeg, ac eu bod yn arferedig felly hyd yn awr.

TYNNIADAU O HEN DDWNEDAU A THRIOEDD,

Er dangos cywirsail Coelbren y Beirdd, a rhai defodau eraill.

"CYFYMBWYLL MACCWY A'I ATHRAW,"

(Rhywbeth yn debyg i rai synniadau rhoddedig eisioes.)

"Macwyy.—Adolwyn poeddynt a gadwassant Gof a Gwybodau Barddas gyntaf ag a ddodaint addysg ar ddoethineb?

"Athraw.—Y Gwyddoniaid;—nid amgen na doethion Cenedl y Cymry a gadwassant Gof Cerdd dafod ar Wybodau a Doethineb Barddas, ag a ddodaint addysg arnynt ag nid oedd na baint na thrwydded ar Wybodau y Gwyddoniaid namyn y byddai syberwyd nag ychwaith Dosparth na Chadair.

"M.—Adolwyn ar ba beth y gwnaed llythyr gyntaf a phydoedd y modd?

"A.—Ar wydd ai gwnaethpwyd gyntaf a naddu Coed yn ebillion pedrystlys ag ar bob ystlys torri rhinniau bychain a chynnifer rhint

y bai achos lluniau llythyr. Gwedi hynny ar garreg Ysledan a chrafu llythyr arni a chethren ddur neu gallestren a lle gwnaed ar wydd Coelbren ai gelwid ac o hynny galw "Rhilleu y llythyrennau yn Goelbrai ar garreg a lythyrenid ei galw Coelfain.

"Modd arall y gwnaed llythyr ar wydd yn amgen na rhinniau, sef hynny a du neu arall o liw a fai parottaf. A hynn a fu gan arfer Cenedl y Cymry er oesoedd cyn cof. A gwedi ynnill yr Ynys honn gan wyr Rhufain y dygasant yma lysewyn a elwir plagawd sef oedd hwnnw Elestron a gaid o wlad Assia a gwlad y Ganon ag ysgrifennu ar honno a gwedi hynny cafwyd Celfyddyd ar grwyn lloi a chrwyn geifr a chrwyn defaid ag o honynt gwneuthur plagawd a goreu ar bob darllaw ydyw mewn llyfrau. Eisioes Beirdd Ynys Prydain a gadwant ar gof a chyfarwyddyd y modd y gwneid yr hen lyfrau er gwared y Gymraeg rhag anneall y syrthiai arni pai amgen. Ag achos arall sef y gellir Gwydd a main lle ag amser nis-gellir plagawd ag am hynny nid na Gorsedd na chadair gyfiawn lle nas dangoser yr hen ddefodau ar hen wybodau wrth ddeall a chelfyddyd. Am hynny y dylit gwydd ymhob Gorsedd a chadair a chyda hynn Rhol Blagawd sef y dylit arddangos ar bob gwybodau llythyr yng Ngorsedd a chadair Beirdd Ynys Prydain a lle na bo gwydd Main llythyr." "

TYNNIADAU O HEN DRIOEDD.

TRIOEDD BRAINT A DEFOD, TRIOEDD CERDD,
TRIOEDD BARDDAS, &c.

(Dangossir yr awdurdodau, os gofynnir.)

"Tri pheth y dylai Bardd eu gwneuthur ai ddwyllaw ei hunan—ei Goelbren ei Rhol ai Blagawd.

"Tair phrif-orsedd Beirdd Ynys Prydain—gorsedd Bryn *Gwyddon* yn Nghaerlleon ar Wysg a gorsedd moel Efwr, a gorsedd Beiscawen.
(Modd arall.)

"Tair Gorsedd Gyfangerdd Ynys Prydain, Gorsedd Beiscawen yn Nyfnwal, a Gorsedd Caer Caradawc yn Lloegr, a Gorsedd Bryn *Gwyddon* yng Nghymru.

"Tri chof Beirdd Ynys Prydain; Can, Llafar Gorsedd, a *Gorwyddawd*, sef Coelbren neu lythyr.

"Tri defnydd Cyfystawd *Gorwyddawd*, *Gwydd* Main a Phlagawd, sef hynny Croeneu.

“Tri *Gwynwyddigion* Beirdd bedydd Ynys Prydain Dewi Teilaw a Phadarn.

“Tri choel Cerddor Tafod—Coel Cerdd, Coel *Gwyddor*, a choel ymbwyll.

“Tri chof y sydd—Cof Ceudawd, Cof Cerdd, a chof *Gorwyddawd*, sef llythyr.

“Tri Deifnogion *Gorwyddawd*—Awen gynhenid, Cymmhwyllyt hy-waith ac eisiwed Angen.

“Tri chof llith a *gwyddor*, Coelfain, Coelbren a chwrrach (cwrach—*parchment*.)

“Tri chof Beirdd Ynys Prydain, Cof llafar Gorsedd, Cof Can gyfallwy a chof *Coelbren*.”

Gellid gwneuthur tynniadau mwy helaeth o lawer o'r Trioedd, i amddiffyn heneidd-dra Coelbren y Beirdd; ond gann nad yw y cyfryw gyfansoddiadau yn aml iddeu gweled, ac, yn enwedig, herwydd fod yr *hen* ysgrifau o honynt wedi diflannu bronni i gyd, mwy boddlongar i'r cyffredin fyddai rhoi engreiffitiau o gyfansoddiadau ein Beirdd, hen a diweddar, gann fod y cyfryw fyth iddeu gweled mewn llawer o hen ysgrifau dros y wlad.

Sylwer, mai defod *neillduol* y Beirdd oedd torri ar Goelbren, wedi i'r arfer fyned i lawr ym mhlith dysgedigion eraill, ac mai o'r neillduoldeb hynn y tarddodd yr enw priodol, Coelbren y *Beirdd*. Nid rhyfedd, gann hynny, eu bod *nhwyl* yn cyfeirio yn fynychach o lawer nag eraill at y ddefod *gysssefin* honn o gofnodi gwybodaeth mewn modd darlleniadol a dealladwy.

Heblaw y geiriau a roddais, yn tarddu o'r gair *Gwydd*, ar ystyr-iaethau gwybodaeth a'i pherthynasau, mae llawer iawn o eiriau eraill yn deilliaw o'r pethau angenrheidiol i'r gelfyddyd o wneuthur llyfr prenn, a'r ddefod *gysssefin* o dorri gwybodaeth arno. Yn gyssylltiedig, herwydd hynny, a'r gelfyddyd ymma, ni gawn yn arferedig gann y Beirdd y geiriau a'r ymadroddion canlyniadol:—

Bwyall.—Ol bwyall Llawdden; bwyall Rhys Goch Eryri, &c.

Naddu Cerdd, naddu Gwawd, naddu Mawl, naddu Iaith, naddu Cof.

Mae ysgrifennydd neu gyfansoddwr, yn cael ei alw yn *Saer*, fal Saer Cywydd, saer Iaith, saer Cyfarwyddyd, saer Cof, saer Can, saer Cerdd, saer Mawl.

Mae y gair *TORRI*, hefyd, yn cael ei arferyd yn *lle ysgrifennu*.

“*Torri ei enw*” yw yr ymadrodd cyffredin trwy Gymmru am “ysgrifennu ei enw.” “Ni ddysgais i erioed dorri'm enw,” yw dywed- iad a glywir hyd y dydd heddyw gann lawer un annysgedig.

TYNNIADAU O'R BEIRDD.

GWYDD, GORWYDDAWD.

"Wyf llogell cerdd wyf lle ynydd (llënydd)
 Caraf y *gorwydd* a gorail clyd" (clydd—rhyglydd.)
 Taliesin—Buarth Beirdd, Myv. Arch. Cyf. I. tu dal. 27.

"Trwy ieith ag elfydd
 Rhithwch rhieddawg *wydd.*"
 Yr un.—Kad Goddeu, 29.

"Gorwythawg Cywydd
 Aches feilon *wydd.*"
 Yr un, 30.

"Talhayarn y sydd—mwyaf y Sywedydd
 Pwy amgyffrawd *Gwydd*—o aches ammod dydd,"
 Angar Cyvyndawd, 36.

"Gwydion ap Don—
 A rithwys *gorwyddawd* ar y plagawd."
 Kadeir Keridwen, 66.

"Llew a Gwydion
 Wy a rithwys *gwydd* Elfydd ac *Elestron.*"
 Kerdd am Veib Llyr, &c. 67.

"Gwawd mwy mefl gogyffrawd
 Aches gwyd (*gwydd*) Gwydion
 Gogwn i nebawd."
 Angar Cyvyndawd, 36.

"O ffyrfioli tri o draethaut berffaith
 Oe gwyded (*gwydded*) ieith oe gwydaur" (*gwyddawr.*)
 Cynddelw, Canu i Dduw, 247.

"Boed emendigeit i'r *gwydd.*"
 Ymryson Gwyddneu, &c. 165.

PEITHYNU, (TORRI AR BEITHYNEN,) PEITHYNIAD, &c.

“ Pan doethan deon o dineidin parth
Deetholwyd pob doeth wlat
Ynghyfyssed a Lloegyrr lluyd amhad
Naw ugain am un a *beithynad*.”

Taliesin, *Myv. Arch. Cyf. 1. 86.*

“ Dilwfr ut dilut vut veityad
Dilyw glyw glewdraws gynniuyad
Difwys *beith* odwys *beithyniad* glud glwys
Argoedwys argleidrad.”

Cynddelw i Owain Cyfeiliawg, 221.

SAER.

“ Wyf cerddoliad wyf ceiniad claer
Wyf Dwr wyf Dryw
Wyf *sacer* wyf syw.”

Buarth Beirdd, 27.

Ni welir y tynniadau islaw yn canlyn eu gilydd, yn olynol, yn gyttunol â blaenrediad amser ; eithr yn hyttrach, yn ol y drefn ag a'u casglwyd.

GWYDD.

“ Dyn wyf heb ei ail dan *wydd*
A goleuder y gwledydd
Am hir feithrin ffolineb
Y fi'n wir yn fwya o neb,
Nid oes i'm dydd, dan *wydd* doeth,
Wr a aned mor anoeth”

Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision, (1420,) iddei hunan.

“ Hwn fydd ar *wydd* i'w hannerch.”

D. G. (Daf. ap Gwilym,) tudal 14.

“ Madog ab Gruffydd *wydd*-daer
Medru aur glod mydrau'r gler.”

Yr un, 224.

"Dyn mal gwas yn dwyn mawl *gwydd*
Dano 'ddwyf er dan Ddafydd."

Ior. Fynglwyd.

"Aed dy fawl, ydwyd filwr,
Ar *wydd* hyd mae dydd a dwr."

Ieuan du'r Bilwg.

"O Lwydarth hael doi'r a'th *wydd*,
O aml iawnder Maelienydd."

Hwmffre Hywel i Sion Llwyd o Rhiwaedog.

"Ti ddywedaist *wydd* odiaeth."

Edm. Prys.

"Dywed weithiau dad ieithydd
Dy feddwl am da foddawl *wydd*
A'u amcanu canu'r côr
A *gwydd* rhugl gywydd rhagor."

Wm. Cynwal.

"Ag yn rydd gwaeth yw *gwydd* gwawd."

Ed. Prys.

"Pedwar mesur pur parawd
Ar hugain sydd mewn *gwydd* gwawd."

Wm. Cynwal.

"Praw ynfyd pa fyd a fo
Bath nas mydr beth nis medro
Ag ar y gwaith, gwir yw *gwydd*
Er cur oer i ceir arwydd.*"

Yr un.

"Beirdd yw gwawd beraidd i'w *gwydd*
Berw lawn a bair lawenydd."

Ed. Prys.

"Llyfr myfyrdawd gwawd yw *gwydd*
Llinyn a phwyll awenydd."

Yr un.

"Os ydwyd, dangos wawdydd
Ar dy gerdd *dorriad* y *gwydd*."

Yr un.

"Ag weithian gwann yw y *gwydd*
Rhussio'r wyd rhysur wawdydd."

Yr un.

* *Arwydd* ymma yn dalgron.

“ Edrych wawdoedd, drych ydynt
Burwydd a gwaith y Beirdd gynt.” Ed. Prys.

“ Dysg dithau dasg y doethion
A'r un hâd a'r Awen honn
Dyna lle câd awenydd,
Dyna *goed* o enwog *wydd*.” Yr un.

“ A phob un a phawb ei *wydd*
Gydag elw a geidw ei gilydd.” Yr un.

“ Diwyd wr wyd, dod ar *wydd*
O deg awen dy gywydd.”
Ior. Fynglwyd i Risiart ap Rhys, ei Athraw.

“ Nid oes un dwys awenydd
Itti'n frawd ar glwm gwawd *gwydd*.” Ed. Prys.

“ Ei fin a gaed o fewn *gwydd*
Adail gwiw ei awdl gywydd.”
Syr Owain ap Gwilym. ym Marwnad G. Hiraethog.

“ Goreu bwnc gwr o bencerdd
A *naddai goed* yn *wydd* cerdd.”
Watkin Powell, ym Marwnad Rhys Dafydd Llwyd.

“ Llauer arfer a orfydd
Llun ei gorph yn darllain *gwydd*.”
Gwilym Tew.

“ Caned Bardd i ddyn harddlun
Gywydd o'i *henwydd* ei hun.”
D. G. i Gruff. Grug.

“ Ni wnai Brydydd na brawdwr
Roi *gwydd* gwell ar gywydd gwr.”
Sion Tudur, Marwnad Sion Brwynog.

“ Gwnn na bydd gair *gwydd* goreu gwad—gan Fun
Gyfur eigr unllun a gwr anllad.”
Iorwerth Hen, i ferch.

"Gan gymmwysed gweled *gwydd*
Gwead ei awdl a'i gywydd."

Sion Phelpod, Md. Hyw. Daf. ap Ieu. ap Rhys.

"Arwain i Owain a wnaf

Ar eiriau mydr ir araf

Peunydd nid NADDIAD GWYDD GWERN

Pen *saerwawd* Paunes irwen."

Iolo Goch i Owain Glyndwr, yn dechreu "Myfyrio bum am farwn."

"Od oes brydydd *wydd* ddi wysg

O Gymmro glân di gamrwyg."

Sion Cent. Gogan y Prydyddion Celwyddog.

"Ymswynais pan welais *wydd*

Y geuog hyll ei gywydd."—etto,

"Faeth ei gywydd *braswydd* brych."

Meyrig Dafydd i Llywelyn Sion. Ymryson am blas y Fann.

COED.

"O myn wawd orddawd arddof

Aed i'r *coed* i *dorri* cof." D. G. i Ruff. Grug.

"Dug awen braff digon brau

Didlawd ar goed ei odlau."

Lewys Mon, Marwnad Daf. ap Edmwnd.

"Ag ungair yn ogangerdd

Ni roe ar *goed* air o'i gerdd."

Rhisiart ap Rhys, Marwnad ei dad.

"Pan glywyf hiraethwyf hoed

Pensaergerdd pain is IRGOED."

Llywelyn Moel y Pantri.

"Y beiwr taer heb air teg

O chwennych ganu chwaneg

O *goed* ir gweued arall

Gwnaed gwnaed a gwellhaed y llall."

Wm. Llŷn, i Owain Gwynedd y Bardd.

"Goreu bwnc gwr o Bencerdd
A *naddai* GOED yn wydd cerdd."

Watk. Powel, yn Marwd. Rhys Daf. Llwyd.

GWYDD.

"Prydyddiaeth parod wyddost,
Pob arch cerdd pawb ar eich cost,
Gwydd gongl gywydd ag englyn,
Gwiwdal teg ag awdl wyt ynn."

Daf. Llwyd Mathew, i Hopkin Twm Philip.

"Cynnal ar droed *goed* a *gwydd*
Gwybodau pob gwybedydd."

Meredydd ap Rhosser, i Syr Walter, Ficcar Bryn Buga.

"Y pennillion mwynion man
Ni thrigant er gwarant GWYDD
Awr o gwbl ar gybydd."

Ieuan ap Hywel Srdwal.

"Wrth ddarllain *Coelfain* celfydd
Gair *naugloes* ar gronigl WYDD."

Sion Tudur, i'r Fenhines Elizabeth.

"Iolo Benn Bardd hardd yw hi
A NADDODD Awen iddi
Gruffudd aeth o Hiraethawg
A rhodd i Degeingl yr hawg,
MORGANWG wen, mawrgain WYDD
A ddifai roed i Ddafydd,
A Môn a fydd yma'n fau,
A mwy ynnill i minnau."

Gruff. Llwyd ap Ieuan, i Ynys Fon; "Yr Ynys o Rien, &c."

"*Naddai* gerdd yn *wydd* gwirddysg
NADDIAD per pob doethder dysg."

Meyrig Dafydd, Marwd. Lewys Morganwg.

"O bü ar wyl o bü r WYDD
I bâb gwiw bob i gywydd."

Ior. Fyng. i Abad Margam.

SAER.

"Haws yw cael lle bo gwael *gwydd*
Saerni dwfn SAER na defnydd."

D. G. i Gruff. Grug.

"SAER *odl* am y sir ydoedd
Saer un nerth a Serion oedd."

Dafydd Benwyn, Marwnad Rhys Iorw.

"*Pensaer* ein iaith mewn gwaith gwawd,
Paun cadarn pennaig Ceudawd."

Lewis Morganwg, Marwnad Ior. Fyng.

"SAER yr holl fesurau *Rhol*."

Gruff. Hafren, Marwnad Sion Philip.

"Er galw ar Forys aur Gowlaid—fesur,
A fu wiw *saer* Toddaid, &c."

Morys Dwyfech, Marwnad Morys Gethin.

"Son fawr am ei senn a fydd,
SAER cael mesurau *celwydd*,*
Naddu gwir yn wir ni wnai,
Naddu ffug ni ddiffygiai."

Gruff. Hiraethog, yng Nghywydd Tegeingl.

"——— Rhys ———"

Fab Dafydd SAER *cywydd* certh."

Lln. Moel y Pantri, i Rhys Goch Eryri.

"SAER *cerdd dafawd*."

Sion ap Hywel ap Lln. Frych, Marwnad Tudur Aled.

* Talgron.

“ Ethryw Pensaer yr Ieithoedd,
Eithr pei byw, athraw pawb oedd;”
Iolo Goch, Marwnad D. G.

“ Paun sir Fon ai Pensaer fu.”
Sion Tudur, Marwnad Sion Brwynog.

“ Sion gwrdd awdl Sion gerdd ddidlawd,
SAER gwyh ar fesurau gwawd,
SAER gwawd fesurog ydoedd,
SAER da, &c.”

Yr un.

“ SAER yr holl fesurau 'rhawg.”
Lewys Daron, Marwnad Tud. Aled.

“ Oer yw i'n rann waghâu,
Oer am SAER y mesurau.”
Richd. Philib, Marwnad Thos. Penllyn, Bardd Rhiwaedog.

BWYALL,

(Yr offeryn a pha un yr oeddynt yn torri coed cerdd.)

“ BWYALL arian a bioedd,
Brau vlivaid ar doddaid oedd.”
Llyw. M. y Pantri, i Gruff. Llwyd.

“ BWYALL gerdd pan ballai gant
Byth NADDAI beth ni wyddant.”
Lewys Mon, Marwnad Rhys Nanmor.

“ Bu BWYALL brenn Bardd anghymmen
Yn naddu can i Wenllian.
Rhys Goch, a Riccert ap Einion ap Callwyn.

“ BWYALL Ruffydd Nudd ai Naddiad—ydoedd,
Mi adwaen ei sythriad.”
Gruff. Llwyd.

"Ef a ddug hynaf o ddau.
Bwyll da BWYALL y *Deus*,
A BWYALL aur bu wr llonn
Morganwg muriau gwynnion."

Ior. Fynglwyd, Marwnad Wm. Egwad.

"*Naddai* gerdd newydd ei gwaith,
Naddiad hyppynt newyddwaith.
Ei FWYALL wenn a fu llath
Ar gadwynfyr *goed* iawnfath."

Syr Owain ap Gwilym, Marwd. G. Hiraethog.

"Adwaen waith da iawn yn ol
BWYALL Brwynog bwyll breiniol,
Da *naddai* ef ai FWYALL
Dri enaid; cerdd—dyrnod call."

Sion Tudur, Marwnad Sion Brwynog.

"A BWYALL *aur* y Mab Llwyd
Dyledog ei dal ydwyd."

Deio Ddu o Benn y Deiniol, i Rys ap Sion o Lynn Nedd.

"Ni welir mwy ol BWYALL
Flodau SAEB ar *gerddgaer* gall."

Rhys Goch Eryri, Marwnad Gruff. Llwyd.

NADDU, (GWEITHIO COED,) NEDDAIR,

(*Yr offeryn a pha un yr oeddynt yn gweithio, dyochri, a thorri ar, ebillion.*)

"Naddodd mor awenyddol,
Ni wyr neb ei ryw'n ei ôl."

L. Mon, Marwnad Dd. ap Edmund.

"Dull *rhy hen* un a dwyll rhai,
Yn newyddach y *naddai*."

Yr un.

"NADDAI ar *wydd* gywydd gwr
Air ei fawl i Ryfelwr,"

NADDAI i ferch newydd fawl,
Ai NEDDAIR awenyddawl.

Dafydd Llwyd Matthew, Marw. Lln. ap How. ap Ieu. ap Gronw.

“Awenyddiaeth i NADDU
Awen ber o'i enau bu.”

Hywel ap Rheinallt, Marwnad Dd. Nanmor.

“I Neuadd Dduw yno ydd aeth
I NADDU Awenyddiaeth.”

Dd. Alaw, Marwnad Lewys Mon.

“NADDU am awenyddiaeth
A *choetta'r* wyf uwch y traeth.”

Sion Brwynog, i Syr Rhys ap Gruffydd o'r Penrhynn.

“Os ei eurwawd mesurawl,
Sy i'w roi 'm mysg *Sciri* mawl,
Adwaen byth ond iawn baham,
O bell ôl *Bwyall* William,
NADDIAD yn wastad a wnai,
Awenyddol y *naddai*,
NADDU'r awdl yn dda'r ydoedd,
Nadd ysgwir yn y ddysg oedd,
Rhwymyn garw rhoi mewn gweryd,
Rhuddyn y gerdd honn i gyd.”

Sion Philip, Marwnad Wm. Llŷn.

“Nudd hyd Ferwig NADDWAWD fwriaf,
Nid yw seithig nod a saethaf.”

Lewys ab Edward, i Birs Mostyn o Dalacre.

LLYFR PREN.

"Bardd o Forganwg a ddangosus ei Beithynen mewn Eisteddfod, a Rhys Cain yno, a gant ir Englyn hun,"

ENGLYN I LYFR PREN.

"Yscebwd mewn cwd, nid min call—a'i mawl,
Llyfr moliant Bardd cibddall,
Anhawdd yw ei iawn ddeall,
Fe wna i ddyd a fo'n ddall."

"Rhys Cain a'i cant i Lyfr pren a ddangosus Bardd o Forganwg mewn Eisteddfod."—O Lyfr Ieuan Bradford. Mi a'i gwelais hefyd yn un o lyfrau J. Jones o'r Gelli Lyfdy, yn Hafod Uchdrud.

IOLO MORGANWG.

Gwelir, oddiwrth y tystiolaethau rhoddedig, fod llawer o Feirdd gorau Gwynedd, yn gystal a rhai Essyllwg, yn cyfeirio yn ANWADA-DWY at Goelbren y Beirdd ; ond eglur yw nad oedd Rhys Cain wedi clywed erioed am y cyfryw beth.

Y prawf diweddaf a rhoddaf o heneidd-dra y Coelbren yw Cywydd o waith Gutto'r Glynn, yn cyfeirio, yn agos trwyddo draw, at yr hen fodd o lythyrennu ar *wydd*, neu *goed*, ac i'r pethau perthynol i hynny.

Yr oedd Gutto'r Glynn yn Fardd teulu i Syr William Herbert, Iarll Penfro ; a bu gydag ef dros hir flynyddau, yng nghostyll Caerdydd a Rhaglan, a diau, efe a welodd holl Hynafiaethau y ddau le enwog hynny ; ac yn eu plith—"Cyfymbwyll Maccwy a'i Athraw" yr Hen Geraint Fardd Glas *fendigaid*—Dwnedau "Ieuan ap y Diwlith" o rhyfedd enw, "Einion Offeiriad," ac "Edeyrn Dafawd aur," ynghyd a chasgliadau cynnwysfawr o'r hen Drioedd ; trwy hynny, ag yntau yn wr ucheldawn, aeth yn Fardd Trwyddedog Braint a Defod ; ac ymddengys hynny yn dra eglur yn ei Gywydd rhagorol. Blodeuodd rhwng 1450 a 1480.

"CYWYDD,

A wnaeth Gutto'r Glynn i Ddafydd Llwyd o Gydeuain, a wnaeth Eisteddfod Beirdd yn ei Dy ei hunan, Anno 1465."

Dafydd mae'r Beirdd yn dyfod
Dawr glêr oll ith dai ar glod
Dafydd fab Dafydd fy Iôn
Da a ranwyd orwyr Einion

Dyfal mae'r Beirdd yn d'ofyn
Dafydd Llwyd di faddau llynn
Degle'r mab carediglwyd
Tra fych cymmanfa tref wyd

Ty Ddewi fry yn dy frôf
 Ne sin yn yssu ynof
 Ynys y Saint ne sain Siam
 Ne ysbytty'n eos batam
 Pererindod pob rhandir
 Pab Rhufain Cydewain dir
 Croes naid cywiriaid Ceri
 Cydewen Nudd ceidw ni
 Cadell ail i'n cadw oll wyd
 Dyrnllw y gwr cadarnllwyd
 Ni chiliaist ni ochelud
 I arbed traul o'r Byd trud
 I roi da ir ai diwael
 A dal ty y dulwyd hael
 Pe brenin pe yr ynys
 O daw i'th wlad aed i'th lys
 Pob clerwr pob rhodiwr hyf
 Pobl attaf pawb ai lettyf
 Pob gwan hyd ym *Morganwg*
 Pob ffwl megys pawb y ffwg
 Pob genau pawb a ganawdd
 Byth yt y llyma beth hawdd
 Po amlaf fo *cerdd dafawd*
 Anhawsa fydd cael *gwydd gwawd*
 Ac e oedd ar gywydd ym
Goed talm pes *gattai* Wilym
 Mae *deufin* i'r mau dafawd
 I *dorri gwydd* sef *deri gwawd*
Naddu mae'r *awemyddion*
 Ei *gwawd* fry o *goed* y fron
 Fal na ellir heb hiroed
 Gael *defnydd cywydd* o'r *coed*
 Aeth y *gwydd* i'th *gywyddau*
 A'r fridd ni wedd ei pharhau

Dau a chywyddau i chwi
 Drwy fydr yn ymdrafodi
 SWRDWAL waisc SAER *dilesgerdd*
 Bun *burw coed* bon a brig *cerdd*
 LLAWDDEN ar FWYALL iddaw
 Ni ad *wydd* deunydd lle daw
 Ehengwaith yw ei hangerdd
 Lladd *coed* mae'n llai o *wydd cerdd*
 Ychydig o *goed* brig bronn
 Yn ei hol yn wehilion
Naddu cerdd newyddu coed
 Nid ar *wangyll na dreingood*
 Dechre gwawd DIOCHRI *gwydd*
 Etto 'ddwyf itti Ddafydd
 Ymhen CATTERWEN *teiriaiith*
 Mae lle'm roi MWYALL ar waith
 O derfydd *coedydd ceudawd*
 Dafydd ti yw *gwydd y gwawd*
 Goreu *deunydd* Ddafydd wyd
Gwydd Awdl ne gywydd ydwyd
 Ti yw *coed deunydd ty cerdd*
 Ti yw trefn iawngefn ungerdd
 Trawst ein iaith trostai ei Nen
 A chanbost o'r wychion-ben
 Post union o Einion ym
 A chalon wych o Wilym
 Catterwen Ceri wen wyl
 Coed nen Cydewain awyl
 Tre tad nid rhaid dy oedi
 A bwrdd tal y Beirdd wyt ti
 Ifor y dref ar ford rydd
 Nid Ifor ond enw Dafydd
 Yn hyfryd ynglan hafren
 Anhyfryd byd heb dy Benn.

GUTTO'R GLYNN a'i Cant.

Mae, deallaf oddiwrth yr ysgrif o fy mlaen, y Cywydd hwnn yn Llyfr Hir Llangadwaladr, yn ysgol y Cymmry, yn Llundain, Rhif. 33, tu dal. 8.

Mae Gutto yn cynnal Llafarddull Morganwg drwy'r cywydd; ac y mae yn enwi, yn gyfarwydd, dau o Drwyddedolion Braint godid-

ocaf Cadair Tir Iarll; ac yn ymson am danynt yn iaith ddefodol y Gadair honno. Yr oedd Swrdwal (Hywel, ond odid, a feddylir,) a Llawdden, yn rhai o'i gyfoedion.

Yr wyf wedi rhoi llawer iawn o dynniadau o'n Dysgedigion, er amlygu eu gwybodaeth am Goelbren y Beirdd; ond *nid* y ddegfed rhann o'r hynn a gesglais gyda'r cyfryw amcan; canys annoeth fuasai cruglwytho fy Nhraethawd a'r cyfan. Os cyssylltir y troellymadroddion a ganfyddir, *mor aml*, ynddynt, a Choelbren y Beirdd, gwelir y synniadau cynnwysedig yn cydfyned a phwyll, ar lwybr carennydd, wrth ochr yr ymadroddion Seisnig,—“A fine *style* of writing; to *raise* the song; to *polish* the numbers; to tune the vocal *shell*; to *string* the lay; to sing a *stave*, &c.”—dywediadau a ddöellir yn ddigon pellioddiwrth ystyriaethau gwreiddiol eu geiriau:—os amgen, dyna lawer o'n awenyddion mwyaf goleuddawn, o'r Cynfeirdd i lawr, yn myned yn fynych, yn wrthodedigion synwyr,—yn efrddion dychymyg.


Hynn yw Tyb,

Ar Air a Chydwybod,

GWYDDON,

“ Yn enw Duw a phob Daioni.”

[TALIESIN WILLIAMS, Merthyr Tydfil.]





t to
ped

cred
ified

